

Pennod 1 – Cyflwyniad

Ymgais i ddisgrifio a dadansoddi ymdrechion mewn dau awdurdod unedol yng Nghymru i hyrwyddo'r defnydd mewnol o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus rhwng 1973 hyd y presennol fydd hanfod y traethawd hir hwn, ynghyd â chynnig fframwaith rhesymu dros gyfreithloni'r ymdrechion hyn fydd yn seiliedig ar safonau ac offerynnau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Tri phrif nod sydd i'r traethawd. Yn gyntaf, drwy ymdriniaeth o safonau normatif ac offerynnau cyfreithiol rwymol rhyngwladol, gobeithiaf ddangos pam bod yr ymdrechion hyn i gyfreithloni'r iaith leiafrifol yn parhau hyd heddiw i gael eu tanseilio'n gysyniadol. Bydd yr ymdriniaeth hon ynghylch cyfreithlonedd yn arwain at yr ail nod sef manylu ar y berthynas rhwng gwleidyddiaeth plaid a byd llai disglair allbynnau polisi ynghylch hybu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion. Bydd yn manylu'n benodol ar benderfyniadau ac ymrwymadau gwleidyddol lleol, neu'r diffyg ohonynt, sydd wedi effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng gweinyddiad mewnol y ddau awdurdod unedol hyn. Er mwyn creu sylfaen empirig i ddadansoddi'r penderfyniadau ac ymrwymadau hyn, fe gynhaliwyd deg cyfweiliad lled-strwythuredig i gasglu data ansoddol a meintiol yn y ddau awdurdod unedol.

Yn gysylltiedig â'r nod hwn felly, ymdrechaf i esbonio pam, er gwaethaf y llwyddiant ymddangosiadol ysgubol i sicrhau shiftt ieithyddol yn y defnydd o iaith yn un o'r awdurdodau hyn sef Cyngor Gwynedd, nad yw'r camau hyn wedi datblygu'n feincnod ar gyfer manau eraill yng Nghymru a thu hwnt, gyda'r canlyniad anochel na dderbyniodd fawr sylw o du llunwyr polisi na chwaith gan academyddion, gan

daflu o'r herwydd amheuaeth ar gyfreithlonedd a hygrededd y broses o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Bydd yr ystyriaethau a amlygir yn y ddau nod uchod yn arwain at drydydd sef dod i gasgliad ynghylch a yw'r defnydd o'r naill iaith yn sefyllfa o fudd anghyfartal (*zero-sum game*) sy'n nacáu'r defnydd ystyrion o'r llall mewn cyd-destunau ieithyddol penodol.

Rhennir y traethawd hir yn chwe phennod. Bydd yr ail bennod yn amlinellu'r cefndir, a'r amwysedd, ynghylch hawliau siaradwyr ieithoedd lleiafrifol. Fe osodir yr hawliau hyn mewn cyd-destun Ewropeaidd a rhyngwladol gan yna daflu goleuni ar y diffyg cytundeb ynghylch sut y dylid diffinio'r hawliau hyn a beth yw goblygiadau'r fath ddiffyg cytundeb ar gyfer cyfreithloni'r defnydd o'r iaith lai ei defnydd. Fe geir hefyd ymdriniaeth ar gynladwyedd dwyieithrwydd, dwyieithedd (*diglossia*), tiriogaeth a chraidd parhaol (*critical mass*) fydd yn greiddiol i'r ymchwiliad a welir ym Mhennod 4 a 5.

Rhydd Pennod 3 gyflwyniad i'r fframwaith empirig a ddefnyddiwyd, gan drafod rhesymeg a methodoleg y cyfweiliadau. Ym Mhennod 4 a 5, fe ddadansoddir y data empirig a gafwyd mewn cyfweiliadau ag aelodau etholedig a swyddogion y ddau awdurdod unedol. Yn y ddwy bennod hyn, fe fyddaf yn craffu ar sut mae trefniadaeth yr awdurdod yn rhoi'r Gymraeg ar waith yn fewnol ynghyd â dadansoddiad o'r graddau y mae hyn yn llwyddo. Yn y ddwy bennod hyn fe gymherir *o fewn* pob awdurdod i weld a oes offerynnau polisi a gweithredu penodol lle y bu/ceir cytundeb ac anghytundeb barn, nid yn unig ymhlith y swyddogion ond hefyd o blith

swyddogion *a* gwleidyddion, gan dynnu sylw at y rhesymeg dros hyn. Yn ogystal, bydd Pennod 4 a 5 yn ceisio creu pontydd cysyniadol rhwng y data empirig a gasglwyd a'r sylfeini theoretig a ddatblygwyd yn y bennod gyntaf. Gan y byddaf yn defnyddio Cyngor Gwynedd fel meincnod, bydd Pennod 5 hefyd yn cynnwys cymhariaeth *rhwng* y ddau awdurdod, a hynny er mwyn dadansoddi'r polisiau a'r dulliau gwahanol a arddelwyd ym mhob achos i weld a gafwyd llwyddiant sydd yn *briodol* i bob awdurdod, gan awgrymu ble y gallai arferion da yn y naill a'r llall groesbeillio ei gilydd.

Bydd y casgliad yn manylu ar ddwy thema greiddiol sy'n deillio o ganfyddiadau'r astudiaeth gymharol cyn trafod arwyddocâd y themâu hyn yng nghyd-destun tri phrif nod y traethawd hir.

Pennod 2 – Cyfreithloni'r Camau

Bydd y traethawd hir hwn yn astudio'r defnydd o'r Gymraeg mewn dau awdurdod unedol¹ yng Nghymru drwy ddadansoddi i ba raddau mae'r defnydd hwn yn dibynnu ar wleidyddiaeth leol a chanlyniadau polisi. Byddaf hefyd yn pwysu a mesur a yw'r dilyniant sy'n deillio o'r rhyngddibyniaeth hon yn un ystyrion. Ynglwm wrth y dadansoddiad y mae rhai ystyriaethau sylfaenol fydd yn hanfodol i'n dealltwriaeth o'r defnydd hwn gan siaradwyr y Gymraeg. Yn benodol, gan yr ystyrir y Gymraeg yn iaith lleiafrifol,² fe fanylaf ar hanfod a 'lleiafrif' cyn symud ymlaen i ofyn nifer o gwestiynau craidd a grisielir gan Crystal³ sef:-

- a ddylem boeni ynghylch lefel y defnydd hwn?
- a ellid gwneud unrhyw beth yn ei gylch?
- a ddylid gwneud unrhyw beth yn ei gylch?

Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn, rhaid fydd seilio unrhyw ystyriaethau canolog ar y seiliau theoretig a'r goblygiadau ymarferol dros yr hawl sydd gan siaradwyr ieithoedd lleiafrifol i ddefnyddio eu dewis iaith mewn nifer penodol o beuoedd neu gyd-destunau.⁴

Gellir gwahanu, er enghraifft, y wladwriaeth a'r eglwys oddi wrth ei gilydd eithr nid yw hyn yn bosibl yn achos iaith. Dim ond wrth ymwneud â phobl eraill y gall rhai hawliau gael eu harfer a dyma sy'n digwydd yn bennaf yn achos hawliau iaith, ond fe

¹ ar gyfer y cyfnod wedi ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, fe ddefnyddiaf y term 'awdurdod lleol' a 'cyngor' yn ddi-wahân

² defnyddiaf y term 'lleiafrifol' yn hytrach na rhai eraill oherwydd cyfleustra yn unig ac nid amlygir felly agwedd hanfodyddol yma

³ Crystal, 2000: 27

⁴ gw. Williams, 2000: 25-26 am oblygiadau positif aidd ac ôl-bositif aidd defnyddio 'pau' neu 'gyd-destun'. 'Cyd-destun' a ddefnyddir yma.

draffodir isod a yw darpariaeth dorfol (*collective*) yn amod resymegol i arfer yr hawliau hyn ynteu yn deillio o ganlyniad i ddarpariaeth unigol.⁵ Canlyniad iaith ‘yn y gymdeithas’ felly, yn ôl McRae,⁶ yw bod rôl ganolog iaith fel rhwydwaith cyfathrebu’r wladwriaeth yn gysylltiedig yn gryf â chyfleoedd cyflogi, yn enwedig felly ym myd llywodraeth leol. Mae anghydfod iaith yn gallu cwmpasu buddiannau economaidd go iawn yn ogystal â dadleuon ynghylch hawl ieithoedd penodol i oroesi. Fe wêl Gellner⁷ fod ein profiadau yn y byd sydd ohoni yn deillio o’r ffaith bod y mathau o ryddid mae unigolyddiaeth wedi eu rhoi inni yn ein galluogi i drosgynnu cymundod ond heb ymadael ag ef yn llwyr. Yn sicr, fe adlewyrchir amwysedd sefyllfa felly – yn nhermau hawliau iaith - gan de Varennes sydd yn dal fod hawliau dynol wedi datblygu y tu hwnt i oddef gwahaniaethau ymhlith pobl. Yn ei farn ef,⁸ ystyr parchu amrywiaeth dynol yw gwerthfawrogi amrywiaeth. Ymhlyg yn y gosodiad hwn yw’r casgliad anorfod fod hawliau dynol unigol wedi eu gweu blithdraplith wrth hawliau torfol, a’r diffyg cytundeb barn ynghylch goblygiadau hyn sydd yn rhannol gyfrifol am yr anallu i ddatrys anghydfod ieithyddol.

Gan fod safonau cyfreithiol rhyngwladol yn rhan o ganon disgwrs normatif,⁹ maent yn gosod blaenoriaethau cytûn y gwladwriaethau sydd yn eu llofnodi ac felly ‘rwyf yn eu hystyried yn gychwynbwynt i werthuso sefyllfa go iawn, sef yn yr achos hwn y defnydd mewdol o’r Gymraeg mewn dau awdurdod unedol. Eithr fe’n hwynebir, cyn dechrau gosod y sylfeini hyn, gan gors ddamcaniaethol ehangach byth sydd yn bellgyrhaeddol ei goblygiadau sef diffyg bodolaeth diffiniad o hanfod lleiafrif. Er bod

⁵ Grin, 2003: 82

⁶ gw. de Varennes, 2001: 18

⁷ gw. Wright, 2001: 245

⁸ 2001: 29

⁹ Grin, 2003: 22

y rhan fwyaf o arbenigwyr polisi iaith bellach¹⁰ yn cyfeirio'n bennaf at ddiffiniad y *rappporteur* Francesco Capotorti o leiafrif a roddodd gerbron Is-gomisiwn y Cenhedloedd Unedig er Atal Gwahaniaethu a Gwarchod Lleiafrifoedd sef:-

A group numerically inferior to the rest of the population of a State, in a non-dominant position, whose members – being nationals of the State – possess ethnic, religious, or linguistic characteristics differing from those of the rest of the population and show, if only implicitly, a sense of solidarity, directed towards preserving their culture, traditions, religions or language.¹¹

parhau mewn gwagle a wna'r diffiniad hwn gan na chafodd ei fabwysiadu gan Gomisiwn dros Iawnderau Dynol y Cenhedloedd Unedig.¹² Eithr mae'n rhychwantu tair elfen sydd yn dangos hynodion lleiafrif fydd weithiau'n gwrthdaro â'i gilydd sef *i.* cysyniad cymdeithas *ii.* cysyniad aelodau sy'n perthyn i'r gymdeithas honno a *iii.* cysyniad gwahaniaeth oddi wrth brif grŵp y wladwriaeth. Dadleua Wright¹³ mai'r ofn y gallai'r élites mewn lleiafrifoedd a mwyafrifoedd ddefnyddio diffiniad felly i gyfyngu ar allu'r unigolyn i symud yn rhwydd rhwng grwpiau a ysbardunai wrthod y diffiniad. Ond fe dâl hi i nodi haerriad Grin¹⁴ nad oes dim sydd yn haearnaidd am gysyniad 'lleiafrif'. Yn hytrach, fe gaiff lleiafrif 'ei lunio' yn gymdeithasol yn ei dyf ef, yn union yr un modd ag y bydd priodoli statws 'lleiafrif' i unrhyw grŵp yn weithred wleidyddol. Drwy gyfeirio at grwpiau ieithyddol, fe ategir y farn hon gan Nelde et al¹⁵ gan iddynt bwysleisio mai grym sydd y tu ôl i gysyniad lleiafrif yn hytrach nag unrhyw ystyriaethau empirig megis nifer y grŵp dan sylw mewn

¹⁰ *ibid.*, t.19

¹¹ de Varennes, 1996: 136

¹² gw. Wright, 2004: 191

¹³ *ibid.*

¹⁴ 2003: 19

¹⁵ 1996: 1

perthynas â'r mwyafrif. Iddynt hwy, nid yw'r grwpiau ieithyddol hyn yn meddu ar y strwythurau gwleidyddol, sefydliadol nag ideolegol a all warchod perthnasedd eu priod ieithoedd mewn bywyd beunyddiol. Byddaf yn dadlau mai'r ansicrwydd, ynteu'r cyndynrwydd, i ddiffinio hanfod lleiafrif oherwydd y pryder hwyrach gan wladwriaethau y bydd gan y diffiniad oblygiadau gwleidyddol-gyfreithiol sydd yn gyfrifol am y ddarpariaeth anghyson ar gyfer siaradwyr ieithoedd lleiafrifol tiriogaethol ac anhiriogaethol¹⁶ mewn cyfraith fyd-eang ar iawnderau dynol a chyfraith ranbarthol¹⁷ ar ieithoedd lleiafrifol.

Cawn gipolwg felly ar y ddarpariaeth hon. Oedwn am y tro felly dros y ddau fath o ddarpariaeth y mae gwladwriaethau sydd wedi arwyddo cyfraith ryngwladol wedi ymrwmo iddynt sef (i) goddefiant ieithyddol a (ii) hyrwyddo ieithyddol. Mae'r naill yn cwmpasu camau 'negyddol' sy'n anelu at ddiogelu siaradwyr iaith leiafrifol rhag derbyn gwahaniaethu yn eu herbyn.¹⁸ Golyga fod yn rhaid i wladwriaethau beidio â gweithredu yn y ffyrdd penodol a nodir yn y gyfraith dan sylw. Ar y llaw arall, fe ellir dynodi hyrwyddo ieithyddol yn gamau 'cadarnhaol' a olyga fod y wladwriaeth yn ymrwmo i weithredu mewn ffyrdd penodol sydd yn hybu hyfywedd a'r defnydd o'r iaith leiafrifol mewn cynifer o gyd-destunau ag yr ystyria'r wladwriaeth ei bod yn briodol iddi ymrwmo iddynt, ac un o'r sectorau y digwydd hybu o'r fath ynddo fel arfer yw'r gwasanaethau cyhoeddus, y gweinyddir cyfran go fawr ohonynt gan awdurdodau lleol. Er bod rhai o'r cytundebau a datganiadau a ddyfynnaf isod heb fod yn rhai cyfreithiol rwymol, ystyriaf eu bod o gymorth gan y ceisiaf greu sylfaen theoretig dros gyfiawnhau'r defnydd gan siaradwyr o iaith leiafrifol ar y lefel leol a

¹⁶ gw. Grin, 2003: 20-21 am drafodaeth ehangach ynghylch iaith diriogaethol ac anhiriogaethol. At ddiben y traethawd hir hwn, iaith diriogaethol yw iaith a ddefnyddir yn draddodiadol o fewn ardal benodol gwladwriaeth gan ddinasyddion y wladwriaeth honno ac sydd yn ôl eu nifer yn llai na gweddill poblogaeth y wladwriaeth honno.

¹⁷ h.y. Ewropeaidd

¹⁸ Dunbar, 2001: 91; Grin, 2003: 81

chan y gallent fod o ddefnydd i lywio ymdrechion i gyfreithloni arferion da a allai yn eu tro gau'r bwlch rhwng canon normatif a chanon cyfreithiol rwymol mwy datblygedig mewn maes a eilw Diergaardt et al yn 'hawliau iaith gweinyddol'.¹⁹

Ymhlith y pwysicaf o'r offerynnau sydd yn arddel camau negyddol ym maes iaith mae'r Datganiad Byd-eang ar Iawnderau Dynol,²⁰ y Confensiwn er Diogelu Iawnderau Dynol a Rhyddid Sylfaenol (ECHR)²¹ a'r Cyfamod Rhyngwladol ar Iawnderau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR).²² Mae'r Deyrnas Unedig wedi llofnodi'r ddau olaf hyn a'u cadarnhau. Ond yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf, oherwydd yn rhannol y pwysau a wynebai'r gymuned ryngwladol yn dilyn yr anghydfod a ddaeth i'r amlwg rhwng grwpiau mewn gwladwriaethau cyn-Gomiwnyddol,²³ fe ddaeth prysuro yn nifer yr offerynnau a ddatganai y dylai gwladwriaethau arddel camau cadarnhaol. Ymhlith y rhai mwyaf dylanwadol ac arwyddocaol y mae'r Datganiad ar Hawliau Pobl a Berthyn i Leiafrifoedd Cenedlaethol neu Ethnig, Crefyddol ac Ieithyddol (UNGA)²⁴ sef yr unig offeryn gan y Cenhedloedd Unedig i ymdrin â phriod hawliau lleiafrifoedd, ond fe wneir hynny drwy roddi hawliau unigol i bobl sy'n perthyn i leiafrifoedd.²⁵ Er nad yw de Varennes²⁶ yn gweld perthnasedd ieithyddol i ddarpariaethau safon arall sef Dogfen y CSCE ar y Dimensiwn Dynol,²⁷ fe atega Erthygl 33²⁸ farn Dunbar²⁹ fod y mesurau y gofynnir yn y ddogfen i'r wladwriaeth eu cymryd tuag at hyrwyddo lleiafrif ieithyddol – ymhlith eraill – yn rhai nid ansylweddol o safbwynt sefydlu egwyddor gynyddol y dylai'r wladwriaeth hybu

¹⁹ 2002: 11

²⁰ Dogfen y Cenhedloedd Unedig A/RES/217 A (III), 10 Rhagfyr 1948

²¹ Cyngor Ewrop, 4 Tachwedd, 1950

²² Dogfen y Cenhedloedd Unedig, 2200A (XXI), 16 Rhagfyr 1966.

²³ Wright, 2004: 192

²⁴ yn dilyn penderfyniad 47/135 y Cenhedloedd Unedig, 18 Rhagfyr 1992

²⁵ de Varennes, 2001: 120

²⁶ *ibid.*, t.272

²⁷ Copenhagen, 29 Mehefin 1990.

²⁸ de Varennes, 1996: 290

²⁹ Dunbar, 2001: 92

cyfleoedd go iawn i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol ddefnyddio eu priod iaith. Dyna ddehongliad Wright³⁰ o eiriad Erthygl 22 Siartr Ewrop dros Hawliau Sylfaenol³¹ sydd bellach yn rhan gyfannol o'r Cytundeb ar yr Undeb Ewropeaidd,³² y cytunwyd drafft ohono ar 18 Mehefin 2004, ac sy'n darparu'r sylfaen ddeallusol dros Erthygl 6 y Cytundeb ynghylch parchu hawliau dynol. A deall sylwadau deifiol de Witte³³ fod cyfraith sy'n ymwneud â'r defnydd o iaith yn cael ei hynodi gan gryn annibyniaeth gysyniadol mewn perthynas â meysydd eraill cyfraith, hynny yw, nad yw byd cyfraith yn cymryd y maes llwyr o ddifrif, oes gwerthoedd cytûn rhywle yma y gallai actorion lleol megis awdurdodau unedol gydio ynddynt er mwyn cyfreithloni eu hymdrechion?

Er bod yr UNGA a dogfen y CSCE heb fod yn gyfreithiol rwymol, fe roddant sylfaen gysyniadol gryf i'w datblygu'n helaethach. Ymhlith yr ymrwymadau rhyngwladol y mae'r Deyrnas Gyfunol wedi ymrwymo iddynt y mae'r Confensiwn Fframwaith er Gwarchod Lleiafrifoedd Cenedlaethol a Siartr Ewrop dros Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, ill dau o dan fantell Cyngor Ewrop.³⁴ Yr offerynnau uchod, yn rhai 'negyddol' a 'chadarnhaol', fydd y deunydd normatif-gyfreithiol craidd i gyplysu'r drafodaeth dros hawliau ieithoedd lleiafrifol â chymau ymarferol y mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion wedi eu cymryd er hybu'r Gymraeg. Ond rhaid yn gyntaf ddod i gasgliad ynghylch y sylfeini theoretig dros hybu'r ieithoedd hyn.

³⁰ 2004:195

³¹ sef 'The Union shall respect cultural, religious and linguistic diversity' gw. http://europa.eu.int/eur-lex/pri/en/oj/dat/2000/c_364/c_36420001218en00010022.pdf

³² sef 'The Union is founded on the principles of ... respect for human rights and fundamental freedoms' gw. http://www.europarl.eu.int/comparl/libe/elsj/charter/art22/default_en.htm

³³ gw. Grin, 2003: 97

³⁴ Fe lofnodwyd y Confensiwn gan y Deyrnas Gyfunol ar 1 Chwefror 1995 a'r Siartr ar 02 Mawrth 2000

Y Sylfeini

Y sylfaen gyntaf a ddefnyddir i gyfiawnhau'r ddadl yw synied am iaith yng nghydestun un elfen ymhlith llawer sydd yn creu hunaniaeth yr unigolyn.³⁵ Oherwydd hyn fe grëwyd modelau cydraddoldeb sydd yn cydnabod bod sicrhau awyrgylch ieithyddol cadarn a chynhaliol yn ffactor bwysig yn natblygiad yr unigolyn ond bod hyn yn debycach o ddigwydd i aelodau mwyafrifoedd nac i aelodau lleiafrifoedd. Mae'r modelau hyn naill ai yn 'ddall i wahaniaeth' ynteu'n 'ymwybodol o wahaniaeth'³⁶ ac yn adlewyrchiad theoretig o'r camau negyddol a chadarnhaol a welwn yn yr offerynnau hyn. Normau felly yw'r modelau hyn a ymgorfforir yn yr offerynnau ac fe gyfiawnheir ynddynt hyrwyddo'r iaith leiafrifol drwy fynnu bod hawl yn bodoli, er bod hyd a lled yr hawliau hynny yn destun trafodaeth.³⁷

Gellid hefyd ddefnyddio dadl 'ecolegol' fyddai'n rhychwantu amrywiaeth ieithyddol. Yn yr ail sylfaen hon, bydd lleihau amrywiaeth yn gwanhau gallu'r hil ddynol i addasu gan fod y gronfa o wybodaeth gyffredin yn cael ei dihysbyddu gyda threigl amser. Safiad Whorfaidd³⁸ sydd y tu ôl i ddadleuon felly gan eu bod yn diriaethu (*reify*) ieithoedd a'u gwneud yn 'actorion', gan beri anawsterau i aelodau'r gymuned ieithyddol dan sylw ddirnad ffyrdd amgen o weld y byd a gwmpesir mewn ieithoedd eraill. Nid oes dwywaith na all ieithoedd ein cynorthwyo i gael cipolwg amgen ar y byd a'i bethau, ond nid yw hyn, gredaf, yn rheswm ynddo ei hun dros adfer y defnydd o iaith mewn cyd-destunau newydd gan ei fod yn gwreiddio sylfaen theoretig yn yr iaith yn hytrach nag yn yr unigolyn.³⁹

³⁵ Dunbar, 2001: 93; Wright, 2004: 190

³⁶ Wright, 2004: 225

³⁷ Grin, 2003: 24-5

³⁸ Wright, 2004: 219. Whorf roddodd fodolaeth i 'benderfynolrwydd ieithyddol' gan osod amrywiaeth ieithyddol yn gonglfaen i'r gred hon

³⁹ Dunbar, 2001: 94

Mae'r drydedd sylfaen yn gysylltiedig â sicrhau amrywiaeth drwy les cymdeithas. Eithr, yn wahanol i'r ddwy ddadl uchod, nid oes gwerth moesegol yn perthyn i'r cwestiwn a ddylid dilyn y naill bolisi rhagor y llall. Yr hyn sydd yn bwysig yw pennu a yw cymdeithas yn well ei byd o ganlyniad i bolisi penodol – bydd rhai yn ennill i raddau mwy a rhai'n colli i raddau mwy o wireddu'r polisi - ac yn fwy penodol byth yn yr achos hwn a ellir cyfiawnhau hybu iaith lleiafrifol oblegid ei bod yn gwella cymdeithas yn gyffredinol ac er mwyn cyrraedd y nod hwn, fe rhagdybid y byddai'n rhaid digolledu'r rhai sydd yn colli drwy sicrhau eu bod yn deall eu bod hwythau yn gymharol well eu byd o ganlyniad i'r polisi. Fel y dadleua Grin, mater empirig 'damcaniaethol' yw gwarchod a hybu ieithoedd lleiafrifol⁴⁰ ond gan nad oes tystiolaeth empirig wedi dod i'r amlwg hyd yn hyn a amlyga a yw lles cymdeithas yn uwch neu'n is o ganlyniad i bolisi o blaid yr iaith lleiafrifol, fe dybir fod amrywiaeth - sef sgil-effaith y ddadl hon ar les cymdeithas – yn cael ei gyplysu'n gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol â lles. Hynny yw, bydd pobl yn y mwyafrif a'r lleiafrif fel ei gilydd yn mwynhau amrywiaeth, cyn belled nad yw'r costau cysylltiedig yn mynd yn ormodol.

Y sylfaen olaf yr ymdrinnir â hi yn yr adran hon yw'r ddadl ynghylch adfer cam. Ymwneud yn bennaf ag ieithoedd tiriogaethol y mae, gan greu'r posibilrwydd o driniaeth arbennig gan y wladwriaeth, a hynny oherwydd fod ei pholisiau wedi 'hwyluso' dirywiad y grŵp ieithyddol dan sylw. O ganlyniad i hyn, bydd ar y wladwriaeth ddyletswydd i siaradwyr yr iaith diriogaethol ond yn gwrthod y driniaeth hon, er enghraifft, i siaradwyr ieithoedd anhiriogaethol.⁴¹ Fe wrthodir triniaeth

⁴⁰ Grin, 2003: 26

⁴¹ Dunbar, 2001: 102

arbennig o'r fath gan Keller⁴² a Wright⁴³ gan fynnu na ellir gwahaniaethu mewn egwyddor rhwng mathau o leiafrifoedd gan fod y sail sy'n dilysu'r hawl hon yn un ddiymwad a chyffredin i bawb.

Cymhwyso'r sylfeini

Sut felly y cymhwysir y sylfeini theoretig hyn i'r ddarpariaeth ryngwladol sy'n dilysu hybu iaith leiafrifol gan wladwriaeth neu gan ei hasiantau? Gan ein bod eisoes wedi cyfeirio at yr anhawster cychwynnol nad oes modd dod o hyd i ddiffiniad a gydnabyddir yn rhyngwladol o hanfod 'lleiafrif' nid yw'n syndod gweld fod pob un o'r pedwar dull wedi eu cynnwys yn y ddarpariaeth a gafwyd hyd yn hyn, sydd yn cymhlethu'r gwaith o ganfod ffyrdd clir o gyfreithloni unrhyw gamau a gymerir gan asiantau'r wladwriaeth i hybu'r iaith leiafrifol drwy sefydlu canon o 'hawliau iaith gweinyddol'. Er enghraifft, fe welir ôl y dull cyntaf yn rhagymadrodd y Confensiwn Fframwaith lle y nodir '... a pluralist and genuinely democratic society should not only respect the ... linguistic identity of each person, but also create appropriate conditions enabling them to express, preserve and develop this identity'.⁴⁴

Yn y cyswllt hwn, fe wêl Dunbar⁴⁵ gyfiawnhad dros gyplysu urddas yr unigolyn â pharchu hunaniaeth, ac ymhlyg yn hynny, iaith yr unigolyn, yn Erthygl 1 Datganiad Byd-eang ar Iawnderau Dynol⁴⁶ sydd yn datgan fod pawb yn cael eu geni'n rhydd ac yn gyfartal o ran urddas a hawliau. Ymdrech yw hyn yn ddi-os i symud i gyfeiriad camau cadarnhaol yn hytrach na rhai negyddol.

⁴² 1998: 58

⁴³ 2004: 243

⁴⁴ <http://conventions.coe.int/Treaty/EN/Treaties/Html/157.htm>

⁴⁵ 2001: 95

⁴⁶ <http://www.un.org/Overview/rights.html>

Nid oes unrhyw amheuaeth na cheir camau cadarnhaol yn Siartr Ewrop dros Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol. Yr hyn sydd yn wahanol am y Siartr, yn y lle cyntaf, yw nad yw'n ymwneud â hawliau na lleiafrifoedd nac aelodau o leiafrifoedd. Siartr yw hon sydd yn ymwneud ag ieithoedd⁴⁷ a'r camau y bydd gwladwriaeth yn eu cymryd i'w gwarchod. Tybiai llunwyr y Siartr, oherwydd y rhesymau uchod dros ddiffyg diffiniad rhyngwladol cydnabyddedig o leiafrif, y byddai'n haws sicrhau ymrwymadau gan wladwriaethau i ieithoedd yn hytrach nag i siaradwyr yr ieithoedd hynny.⁴⁸ Diriaethu ieithyddol *par excellence* felly yw'r offeryn cyfreithiol rwymol rhyngwladol cyntaf hwn i ymdrin â chymunedau iaith leiafrifol ond mae hefyd yn enghraifft o'r ail sylfaen theoretig a nodwyd uchod sef apelio at amrywiaeth a ffyniant yr ieithoedd hyn yn rheswm ynddo'i hun dros eu gwarchod.

Y mae'r Siartr yn nodedig yn ogystal oblegid ei bod yn arwydd o symudiad cynyddol, yn ôl Wright,⁴⁹ tuag at gydnabod yr angen am hawliau torfol i sicrhau rhai mathau o ryddid, er yr ychwanegwn yma mai hawl dorfol *de facto* sydd yn y Siartr yn hytrach nag un *de iure*. Ni ddylem golli golwg ar y ffaith, chwaith, fod y Siartr yn disgrifio egin hawl dorfol yng nghyd-destun *dinasyddion* – nid lleiafrifoedd – sydd yn digwydd siarad iaith leiafrifol.⁵⁰

Mae'r Siartr felly wedi ennyn cryn sylw ac anghytundeb barn gan academwyr yn ogystal ag anghysondeb theoretig yn eu plith. Er enghraifft, er bod Wright⁵¹ yn ystyried iaith yn ymddygiad nad yw'n boboli y tu allan i'r siaradwr sy'n ei defnyddio,

⁴⁷ Grin, 2003: 10

⁴⁸ Dunbar, 2001: 99

⁴⁹ Wright, 2004: 195

⁵⁰ <http://conventions.coe.int/Treaty/en/Treaties/Html/148.htm>. Erthygl 1 (a) i

⁵¹ 2004: 12

fe wêl⁵² serch hynny y Siartr yn gam ymlaen *o ran polisi* gan fod y camau a nodir ynddi yn rhai gweithredol. Dichon hefyd ei bod yn ymwybodol o, ac eisiau hoelio sylw ar, y llinyn cyswllt amlwg rhwng yr hyn a eilw Grin⁵³ yn benderfyniadau gwleidyddol ‘*upstream*’ a chamau polisi ‘*downstream*’. Er mwyn ehangu’r ddadl hon i fyd polisi, fe gysyllta Wright⁵⁴ y symudiad tuag at hawliau torfol â theori wleidyddol a ddatblygwyd o fewn yr Undeb Ewropeaidd sef cyfrifolaeth (*subsidiarity*) oherwydd bod y broses yn aml iawn yn golygu fod gan un actor mewn tiriogaeth iswladwriaethol – yr awdurdodau unedol yn yr achos hwn – fonopoli dros weithredu polisiâu.⁵⁵ Ni thycia’r ddadl hon, ysywaeth, yn nhyb Dunbar⁵⁶ gan iddo fynnu y collwyd cyfle i ddatblygu’r seiliau theoretig dros sicrhau hawliau dynol sylfaenol i ieithoedd cynhenid mewn cyfraith ryngwladol. Gallwn gymryd yn ganiataol felly mai hawliau dynol sylfaenol *unigol* sydd ganddo mewn golwg gan yr â rhagddo i ddatgan ei gred fod gwerth cysyniadol ehangach yn y Confensiwn Fframwaith gan fod llawer o’r darpariaethau⁵⁷ ynddo wedi eu seilio yng nghyd-destun hawliau unigol a fwynheir gan aelodau lleiafrifoedd, gan gadarnhau barn de Varennes.⁵⁸

Eithr fe wyddom fod llawer llai o wladwriaethau wedi cadarnhau’r Siartr na’r gwladwriaethau hynny sydd wedi cadarnhau’r Confensiwn Fframwaith⁵⁹ felly ymddengys mai’r hyn sydd wedi arwain at gyndynrwydd gan wladwriaethau i gadarnhau’r Siartr yw’r goblygiadau ymarferol ym maes gweithredu polisi gweladwy, cadarn. Nid oes syndod. Er enghraifft, cyfeiria Erthygl 7 (iii) y Siartr at gamau cadarn i hybu’r ieithoedd ‘*in order to safeguard them*’ yn mynd ymhell y tu hwnt i gamau

⁵² Ibid., t.193-4

⁵³ t. 29

⁵⁴ 2004: 195

⁵⁵ Richardson, 2001: 89

⁵⁶ 2001: 100

⁵⁷ Erthygl 10 (2), er enghraifft

⁵⁸ 2001: 30

⁵⁹ 17 oedd wedi cadarnhau’r Siartr erbyn 21 Tachwedd 2003 gw. <http://www.ciemen.org/mercator/index-gb.htm> tra 35 oedd wedi cadarnhau’r Confensiwn erbyn 21 Mai 2004 gw. http://www.greekhelsinki.gr/bhr/english/special_issues/fcnm_guide.html

cadarnhaol drwy droedio'n ddiflwyn ar dafod i fyd canlyniadau polisi.⁶⁰ Wrth i gryn nifer o awdurdodau unedol ddechrau ar eu hail gyfres o gynlluniau iaith, gan gynnwys Gwynedd a Cheredigion, onid buddiol iddynt fyddai defnyddio offerynnau cyfreithiol rwymol cyfredol i gyfreithloni a bywiogi maes polisi sydd yn dioddef o hyd o ddiffyg hygrededd?

Cymalau cyfyngu

Ond fe ddaw'r mater hwn â ni at ystyriaeth arall, sef diffygion posibl defnyddio sail theoretig sydd yn arddel hawliau iaith ond sydd, serch hynny, wedi eu llesteirio gan ragamodau a chymalau sy'n cyfyngu ar yr hawl.⁶¹ Gwelwn isod sut mae offerynnau rhyngwladol sydd yn defnyddio'r sail hon yn gyforiog o amwyseddau felly.

O gymryd uchod fod gwerth cysyniadol ehangach yn y Confensiwn Fframwaith rhagor haeddiannau'r Siartr ym maes polisi, oedwn wrth Erthygl 10(2). Er ei bod yn cydnabod yr angen am gamau cadarnhaol sydd yn rhoi hygrededd i gydraddoldeb 'sy'n ymwybodol o wahaniaeth',⁶² fe welir ei bod yn dioddef o gryn amwysedd a hyblygrwydd:-

In areas inhabited by persons belonging to national minorities traditionally or in substantial numbers, if those persons so request and where such a request corresponds to a real need, the Parties shall endeavour to ensure, as far as possible, the conditions which would make it possible to use the minority

⁶⁰ Grin, 2003: 85

⁶¹ Morawa, 2002: 16

⁶² Dunbar, 2001: 108

language in relations between those persons and the administrative authorities.⁶³ (ychwanegwyd pwyslais)

ac felly teg yw gofyn ynghylch y gallu i gymhwyso'n ystyrllon hawl sydd wedi ei chyfyngu felly. Fe ellir rhannu'r safon hon yn is-benawdau:-

Niferoedd sylweddol

O gymharu geiriad felly â geiriad Erthygl 10 (1) y Siartr⁶⁴ sy'n ymwneud ag awdurdodau gweinyddol, fe welwn fod '*nifer y preswylwyr*' yn cyfiawnhau'r mesurau a nodir ynddi. Mae de Varennes wedi cymhwyso'r cyfyngiad cyfreithiol hwn i ofynion polisi a'i alw felly yn '*sliding-scale model*'.⁶⁵ A dibynnu ar nifer siaradwyr iaith benodol mewn ardal benodol, dylai awdurdodau lleol ymateb drwy ddarparu gwasanaeth cyfatebol yn yr iaith honno. Ar ris uchaf y model hwn sef rhif 5, fe ddatgenir y gofyniad yn groyw:-

gallu defnyddio'r iaith answyddogol neu leiafrifol fel *iaith fewnol a beunyddiol* gwaith o fewn awdurdodau lleol (pwyslais wedi'i ychwanegu)

Dyma gyfreithloni'r camau mae Cyngor Gwynedd wedi ceisio eu cyflawni oddi ar gyflwyno ei Bolisi Iaith ym 1974. Eithr, fel y gwelwn ym Mhennod 4, nid ar chwarae bach y gwnaed yr ymdrechion hyn, o gofio diffyg meincnodau rhyngwladol i gyfreithloni'r camau a wnaed. Yn wir, mae Dunbar ei hun yn cyfaddef fod y gwarantau mewn offerynnau diweddar megis y Siartr a'r Confensiwn, ill dau yn

⁶³ supra yn 47

⁶⁴ supra yn 44

⁶⁵ 2001: 19-20 a 1996: 177

cynnig camau cadarnhaol, yn dangos y rhwystrau amlwg a ddaw yn sgil cymhwysio ymagwedd sydd ond wedi ei seilio ar hawliau iaith i ymdrechion i adfer iaith.⁶⁶

Tiriogaeth

Yn ychwanegol, fe gyplysir yn yr Erthygl uchod diriogaeth â nifer y siaradwyr. O wneud hyn, fe gysylltir dau gyfyngiad. Un sydd yn gosod meini prawf yn seiliedig ar niferoedd a'r llall sy'n pennu ffiniau daearyddol i benderfynu a gaiff camau cadarnhaol dros yr iaith leiafrifol eu rhoi ar waith ai peidio. Er nad oes diffiniad o diriogaeth yn y Confensiwn, fe wneir hyn yn Erthygl 1 (b) y Siartr. O gymryd y ddau offeryn at ei gilydd, fe geir yma gyfiawnhad theoretig sy'n dilysu'r camau gwarchod a hybu a gymerwyd gan Gyngor Gwynedd ers cyhoeddi'r Polisi Iaith⁶⁷ gan mai'r Gymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu i 69% o boblogaeth yr awdurdod unedol.⁶⁸

Dichonoldeb

Un o'r cyfyngiadau eraill a nodir yn Erthygl 10 (2) uchod – a gorfforir hefyd yn rhan o ddeddfwriaeth y Deyrnas Gyfunol ynghylch y Gymraeg⁶⁹ - yw graddau dichonoldeb gweithredu camau cadarnhaol. Dyma hwyrach un o'r camau cyfyngu mwyaf pellgyrhaeddol gan ei fod yn galluogi gwladwriaeth i gynnig ystod helaeth o resymau pam y ceir rhwystrau rhag gweithredu 'hawliau iaith gweinyddol' llawn, y mwyaf blaenllaw yn eu plith yn ddi-os fyddai diffyg adnoddau ariannol.⁷⁰

⁶⁶ 2001, t.109

⁶⁷ Cyngor Sir Gwynedd, 1983

⁶⁸ gw. <http://www.cymru.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publications/population/2003/sb22-2003/sb22-2003.htm> - Tabl

2

⁶⁹ Gw. Adran 5 (2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 lle y cyfeirir at egwyddor cynnal busnes cyhoeddus o dan amgylchiadau sydd yn 'reasonably practicable' http://www.legislation.hms.gov.uk/acts/acts1993/Ukpga_19930038_en_3.htm#mdiv5

⁷⁰ Morawa, 2002: 18

Gwir angen a dymuniad

Gellid cynnig nifer o resymau posibl dros gyfyngu ond ymhlith y rhain y mae profi ‘gwir angen’⁷¹ cyn gweithredu ar yr hawl. Rwyf wedi cyplysu’r ‘gwir angen’ hwn â ‘dymuniad’ y siaradwyr hynny y darperir yr hawl ar eu cyfer a theg yw crynhoi mai’r wladwriaeth fydd yn asesu pa angen sydd yna.⁷² Awgryma geiriad o’r fath nad yw ymgynghori yn flaenoriaeth uchel i wladwriaethau hyd yn hyn, ac yn wir ni nodir unrhyw fframwaith ymgynghori yng nghymalau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn y cyswllt hwn, mynn Wright⁷³ mai’r ddadl gryfaf dros benderfynu hybu iaith yw oherwydd bod ei siaradwyr eisiau i hyn ddigwydd. Dadleua Dunbar⁷⁴ y byddai unrhyw ddarpariaethau sy’n asesu gwir angen yn fwy effeithiol o lawer o ganolbwyntio’n bennaf ar ofynion y gymuned ieithyddol dan sylw. Amserol yw nodi yn y cyswllt hwn fod nifer o’r sawl y cyfwelwyd â hwy yng Ngwynedd a Cheredigion yn ystyried y Strategaeth Gymunedol arfaethedig, sef ‘mam gynllun’⁷⁵ yr awdurdodau unedol tan 2015, yn ffordd uniongyrchol o ehangu rhwyd dylanwad yr awdurdodau wedi sawl blwyddyn o grebachu sefydliadol.

Cyfreithloni’r awdurdodau wrth briflifo’r Gymraeg

Dadleua Grin⁷⁶ y gall dadleuon normatif ymhlyg mewn offerynnau rhyngwladol yn aml iawn droi’n gerydd moesegol nad yw’n llwyddo i ddylanwadu ar y gwladwriaethau hynny sydd â barn wahanol ynghylch yr iaith leiafrifol, eithr dadleuaf mewn penodau dilynol mai datblygu’r sylfeini cysyniadol hyn sydd ymhlyg yn yr offerynnau a wna Cyngor Gwynedd yn bennaf a Chyngor Sir Ceredigion i raddau llai o lawer, a hynny am y rheswm syml fod Cyngor Gwynedd wedi cyrraedd cytundeb

⁷¹ supra yn 51

⁷² Morawa, 2002: 24

⁷³ 2004: 225

⁷⁴ 2001: 114

⁷⁵ gw. er enghraifft Strategaeth Gymunedol Gwynedd www.gwynedd.gov.uk/gwy_section.asp?cat=3211

⁷⁶ 2003: 8

barn yn lleol, a'r farn honno yn drawsbleidiol gytûn. Yr hyn sydd yn arwyddocaol am y camau a gymerwyd yng Ngwynedd yw eu bod *i.* wedi rhagflaenu offerynnau megis y Siartr o oddeutu 20 mlynedd *ii.* bod y polisiau a ddilynwyd yn adlewyrchu opsiynau gwleidyddol sydd bellach wedi eu dilysu mewn offerynnau rhyngwladol a *iii.* bod y camau 'unochrog' a gymerwyd gan Wynedd yn dangos ac yn mynd i'r afael â'r gwendidau ynghylch y defnydd o iaith yn yr offerynnau hyn gan na fu'n bosibl hyd yn hyn i'r gymuned ryngwladol gytuno ar ddiffiniad o leiafrif.⁷⁷

O gymryd felly bod angen dilysu cysyniadol o hyd ar gyfer y polisiau a fu mewn grym yng Ngwynedd ers dros 30 mlynedd bellach, a bod angen i'r un graddau feincnod llwyddiannus ym myd polisi er mwyn cadarnhau gwerth theoretig yr offerynnau rhyngwladol, craffwn ar sut mae Cyngor Gwynedd wedi creu'r bont rhwng theori a byd polisi, a hynny drwy ei weithrediad, yn ddiarwybod i'r Cyngor fe ymddengys, o'r ymrwymadau darniog, anghyflawn ac anghyson yn yr offerynnau. Fe ellid honni fod polisiau'r Cyngor yn gyson â'r gred fod hawliau iaith yn hawliau sylfaenol gan nad yw'r cymalau cyfyngu a welir yn yr offerynnau uchod – sy'n adlewyrchu pryderon y wladwriaeth am ymrwymadau ariannol penagored ac yn faen tramgwydd rhag sicrhau hawl sylfaenol– yn bodoli yng nghynllun iaith y Cyngor. Ym maes recriwtio, ymddengys fod Erthygl 10 (2) o'r Confensiwn yn awyddus i hybu'r defnydd o'r iaith leiafrifol ym maes gweinyddiaeth ond mae'r cymalau cyfyngu yn caniatáu osgoi cymryd yr union gamau hynny sydd eu hangen i unioni prinder o'r fath mewn staff.⁷⁸ Fel y gwelwn, fe â Cyngor Gwynedd i'r afael â hyn yn ei Gynllun Iaith

⁷⁷ de Varennes, 2001: 151

⁷⁸ Dunbar, 2001: 114

drwy ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff allu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg hyd at safon sy'n briodol i ddibenion y swydd.⁷⁹

Un maes sydd yn annelwig o hyd, ac yr ymdrinnir yn helaethach ag ef ym Mhennod 4, yw'r ddadl y gallai camau cadarnhaol esgor ar gyhuddiadau o wahaniaethu o blith aelodau mwyafrif ieithyddol y wladwriaeth. Gan ddefnyddio Erthygl 8 (3) Datganiad UNGA,⁸⁰ sydd yn nodi na fydd y cyfryw fesurau gan wladwriaeth i hybu iaith leiafrifol yn cael eu hystyried yn wahaniaethol yn *prima facie*, fe ddadleua Dunbar⁸¹ nad yw honiadau felly yn argyhoeddi gan nad yw camau cadarnhaol yn creu breintiau arbennig i leiafrifoedd ieithyddol, ond yn hytrach yn ceisio darparu'r un hawliau iddynt ag a fwynheir gan y mwyafrif. Fe wneir y pwynt gan Bourdieu⁸² fod iaith, yn wahanol i'r rhan fwyaf o adnoddau, yn adnodd na ellir ei ddihysbyddu a pho fwyaf yw'r defnydd ohoni, mwyaf yn y byd fydd ei defnyddioldeb.

Dwyieithrwydd a dwyieithedd

Bydd polisïau iaith a'r rhesymau drostynt yn adlewyrchu'r modd y mae llunwyr polisi yn deall sut mae ymdrechion i hybu'r naill iaith yn effeithio ar berthynas y ddwy â'i gilydd a bydd eu bydolwg ar natur y berthynas yn hollbwysig i weithredu'r polisïau. Dwyieithrwydd a dwyieithedd sy'n hoelio ein sylw yma ac unwaith yn rhagor, fe welwn anghytundeb barn ymhlith academwyr ynghylch hanfod y termau hyn a'u goblygiadau cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu mewn dewisiadau polisi neu'r diffyg ohonynt, a hynny oherwydd fod y ddadl dros y math o ddwyieithrwydd a/neu ddwyieithedd a roir ar waith yn agosach o lawer at lunio polisïau '*downstream*' na

⁷⁹ Cynllun Iaith diwygiedig 2004 Cyngor Gwynedd – Adran 7.1.1

⁸⁰ <http://www1.umn.edu/humanrts/instree/d5drm.htm>

⁸¹ 2001: 118

⁸² gw. Wright, 2004: 250

safonau ac offerynnau rhyngwladol. O gymhwyso Williams at ddehongliad Romaine felly,⁸³ mae dwyieithedd yn cynrychioli *cyd-destunau* cymdeithasol sefydlog rhwng dwy iaith o'u cyferfynnu â chyd-destunau ansefydlog dwyieithrwydd.

Mynn safbwynt realyddol fod iaith mewn gweinyddiaeth yn system sydd yn nythu, yn dominyddu ac yn nacáu bodolaeth pob system arall. Os caniateir y defnydd o iaith arall, dim ond mewn sefyllfa israddol yn nhrefn pwysigrwydd a pherthnasedd y defnyddir yr iaith honno, megis cyfieithu dogfennau. Dadleua Wright⁸⁴ mai sefyllfa o fudd anghyfartal yw'r defnydd o iaith mewn sefydliadau, gan dderbyn fe ymddengys agwedd normatif tuag at sicrhau hawliau dynol sylfaenol. Oherwydd bod Wright yn tybio bod dwyieithrwydd o'i hanfod yn anghybwys achos bod y goblygiadau yn gofyn am fwy o gyfaddawdu gan leiafrifoedd na chan fwyafriifoedd ieithyddol, y mae'n bur debyg mai dwyieithedd cymdeithasol heb ei gynllunio hefyd sydd ganddi mewn golwg yn hytrach na dwyieithedd sefydliadol '*wyneb i waered*' o blaid yr iaith leiafrifol lle y defnyddir codau gwahanol o fewn tiriogaeth benodol, er enghraifft ymdrechion pwrpasol, cyson a chenhadol i hybu'r defnydd helaeth o'r iaith leiafrifol ym myd gweinyddu lleol ochr yn ochr â'r defnydd o'r iaith fwyafrifol mewn cyd-destunau eraill megis y sector preifat. Hynny yw, defnyddia'r dwyieithedd sefydliadol hwn fframwaith cysyniadol sy'n ehangach na'r unigolyn ac a allai amrywio yn ôl yr uned weinyddu a/neu lefelau'r craidd parhaol, boed yn awdurdod lleol, clwstwr o awdurdodau lleol neu drefniant arall. O ystyried mai ffenomen hyblyg yw dwyieithrwydd cymdeithasol, gallwn dderbyn mai

⁸³ 1995: 36

⁸⁴ 2001: 188

clear functional differentiation and secure financial support for the weaker language are the most basic of requirements and more protective mechanisms will probably be necessary⁸⁵

yw'r arwydd amlycaf mai dwyieithedd sefydliadol wedi ei gynllunio (sylwer ar y defnydd o'r gair *clear*) sydd gan Wright dan sylw yma gan nad yw dwyieithrwydd, a derbyn agwedd normatif tuag ato, yn caniatáu gwahaniaethu yn ôl swyddogaeth. Mae peidio â gwahaniaethu yn ôl swyddogaeth felly yn gwbl gyson â dehongliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r hyn yr esgyr dwyieithrwydd arno sef normaleiddio iaith⁸⁶ ac yn briodol i garfan o feddwl sydd yn blaenoriaethu trefn hawliau tuag at adfer iaith uwchlaw, ac yn diystyru, newidynnau (*variables*) eraill megis craidd parhaol. Fe wêl Aitchison a Carter anawsterau gyda dehongliad o'r fath gan y tybiant na ellir ystyried iaith yn iaith feunyddiol oni chaiff ei defnyddio mewn ystod eang o gyd-destunau gan ganran sylweddol o'r boblogaeth⁸⁷ ac fe ategir y farn hon gan Romaine⁸⁸ a Strubell⁸⁹ a honna fod dwyieithrwydd cytbwys yn *non sequitur* nad yw'n debygol o fod yn sefydlog yn y tymor hir. Serch hynny, ymddengys nad yw hyn yn ddigon o reswm, barna Williams, dros gyfuniad yng Nghymru o'r drefn hawliau unigol a'r drefn gwahaniaethu yn ôl tiriogaeth.⁹⁰ Iddo ef, y drefn hawliau unigol yn unig yw'r ffordd ymlaen ond daw cysyniad o'r fath ben-ben â haeriad Wright fod yr hawl i ddefnyddio iaith ond yn ystyrllon i'r unigolyn o ganiatáu'r hawl honno i'r grŵp fel cyfanwaith. Yr anhawster felly i ryddfrydwyr sydd am ddefnyddio'r drefn hawliau unigol yn *unig* yw

⁸⁵ Wright, 2004: 188

⁸⁶ gw. Aitchison a Carter, 2000: 69

⁸⁷ *ibid.*, t.54

⁸⁸ 1995: 38

⁸⁹ gw. Wright, 2004: 207 lle dywed 'to defy history, leading people to believe that we shall be the first to maintain the balanced coexistence of two languages in a given territory, is an error which will be paid for dearly'.

⁹⁰ 1992: 24-26. Hyn sy'n esbonio ei osodiad crywyd 'Mae dwyieithrwydd a deu-ddiwyllynnedd yn gweithio!'

ei bod yn anodd cyfiawnhau iaith fel hawl unigol gan fod llefaru yn weithred sydd yn effeithio ar bobl eraill ac, fel y gwelsom, yn hawl dorfol *de facto*.⁹¹

Er bod Fishman⁹² yn gosod dwyieithedd yn nod clodwiw sydd yn caniatáu cyd-destunau sefydlog penodol i'r ieithoedd dan sylw, cadw cydbwysedd y cyd-destunau ieithyddol sydd oruchaf yn y bydolg hwn yn hytrach na chynllunio adfer cyd-destunau ychwanegol ac yna eu sefydliadoli, megis yn achos Cyngor Gwynedd. Dehongliad Williams a Morris o sefydliadoli'r (*institutionalisation*) iaith leiafrifol yw bod cynnydd yn y defnydd o'r iaith hon yn hytrach na'r iaith fwyafrifol yn cael ei gymryd yn ganiataol *mewn cyd-destunau penodol*.⁹³ Sgil-effaith amlwg ond hynod o berthnasol hefyd i sefydliadoli mewn gweinyddu cyhoeddus yw adfer llythrennedd. Nid ar chwarae bach y dadleua Aitchison a Carter fod colli iaith yn digwydd yn gyntaf drwy broses o golli llythrennedd.⁹⁴ A defnyddio dadl Bourdieu uchod ynghylch defnyddioldeb cynyddol iaith fel adnodd, ac o droi dadl Aitchison a Carter ben i waered, teg fyddai ceisio canfod a oes gan y cynnydd mewn llythrennedd effaith gadarnhaol ar adfer y cyd-destunau ieithyddol hyn ar lefelau llythrennedd. Haerwn y gwnâi astudiaeth o'r fath gyfraniad sylweddol at ein dealltwriaeth o adfer cyd-destunau ieithyddol.

Fe gydia Williams⁹⁵ yn yr amwysedd ynghylch union ystyr dwyieithrwydd drwy fynnu bod hunaniaeth ddwyieithog yng Nghymru yn seiliedig ar unigolyddiaeth gyd-destunol yn hytrach nag ar ymlyniad ethnig neu gyndeidiol. Ymddengys imi fod yr 'unigolyddiaeth gyd-destunol' y cyfeiria ato yn gyfuniad o ymddygiad wedi ei seilio

⁹¹ Wright, 2004: 184

⁹² 1993: 85

⁹³ 2000: 25

⁹⁴ 2000: 57

⁹⁵ 2000: 665

ar gyfreithloni sy'n deillio o hawliau dynol unigol a thorfol fel ei gilydd a'i fod yn gweld cyd-fodoli anhepgor rhwng y ddau. Fe welaf osodiad felly yn ddatblygiad ar ddatganiad de Varennes⁹⁶ fod hawliau iaith ond yn rhai unigol, nid oherwydd bod eu grym i ganiatáu defnyddio'r iaith gynhenid yn cael eu cyfyngu oherwydd y cymalau rhwystro a welsom eisoes, ond yn hytrach oblegid nad yw'r drefn hawliau fel y saif ar hyn o bryd yn cydnabod y ddeuliaeth sydd ynghlwm wrth 'unigolyddiaeth gyd-destunol'. Yn anffodus, nid yw Williams yn mentro enghreifftiau, ond pe bai polisiâu iaith gwahanol at wahanol ddibenion yn cael eu cynnwys yn rhan o'r 'cyd-destunau' hyn, rhwydd fyddai gweld tiriogaeth gweinyddiaeth gyhoeddus yn llenwi'r gwagle hwn. Pan ddywed:-

dros y degawd nesaf bydd y polisi iaith cenedlaethol yn canolbwyntio ar ... polisi iaith mewn perthynas â ... gweinyddiad cyhoeddus, hawliau cyfartal ac ymdoddiad dinasyddion o fewn cymdeithas sifil⁹⁷ ... y mae i awdurdodau unedol ... swyddogaeth allweddol fel cyfryngau cyfreithloni ...⁹⁸

ai awgrymu y mae y gallai'r defnydd o'r iaith leiafrifol gael ei drin yn wahanol mewn gweinyddu cyhoeddus, yn unol â'r diriogaeth benodol dan sylw, a derbyn bod egwyddor anwahaniaethu (*non-discrimination*) wedi ei hennill? Adlewyrchiad digamsyniol, gredaf, o fydolwg Gellner ynghylch asio cymundod ac unigolyddiaeth.

Yn y bennod hon, fe welsom enghreifftiau o safonau rhyngwladol sydd yn ddyheadol eu natur ac offerynnau sydd yn gyfreithiol rwymol. Maent yn cynnig cefndir sy'n cyfreithloni camau polisi ond nid yw'r naill na'r llall, fodd bynnag, yn awgrymu sut y

⁹⁶ 1996: 117-121

⁹⁷ 2000: 662

⁹⁸ Ibid., t.665

dylid troi'r normau a wyntyllir ynddynt yn ymarfer go iawn. Dyna fydd byrdwn gweddill y traethawd hir hwn sef manylu ar y dewisiadau a wnaed gan Gyngor Gwynedd yn gyntaf ac yna Gyngor Sir Ceredigion wrth hybu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg ynghyd â'r rhesymau dros y dewisiadau hyn.

Pennod 3 – Rhesymeg a Methodoleg y Cyfweiliadau

Y sector gyhoeddus, yn ôl Agote ac Azkue,⁹⁹ yw'r llwybr y troedir leiaf arno wrth gynllunio ar gyfer ieithoedd lleiafrifol. Er bod eu hastudiaeth hwy yn ymwneud â chynllunio ieithyddol yn y gwasanaeth sifil yng Ngwlad y Basg, cymharol brin fu'r ymdriniaethau o'r ymdrechion i gynllunio ar gyfer yr iaith leiafrifol ym myd llywodraeth leol, sef yr union haen honno o lywodraethiant sydd yn cyfrannu i'r hyn a eilw Rees yn 'gynghanedd cymdeithas'¹⁰⁰ ac sy'n effeithio fwyaf ar drigolion bro, ac yn ddealedig, ar eu dewis iaith. Rhyfeddach byth felly yw'r diffyg sylw academaidd ar lywodraeth leol, os cydnabyddwn¹⁰¹ nad yw blaenoriaethau a dewisiadau polisi sy'n gweithredu ar lefel y wladwriaeth bob amser yn cael eu hadlewyrchu yn lleol. Eithr, er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, yr oeddwn eisiau deall yn well yr ymdrechion hynny i hybu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg.

Canolbwyntiaf yn arbennig ar y cyfnod wedi ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 hyd y presennol ond cyfeirir hefyd at y cyfnod rhwng 1973 a 1996, gan mai 1973 oedd y flwyddyn a welwyd sefydlu Gweithgor Polisi Dwyieithog o dan fantell hen gynghorau Sir Môn a Chaernarfon¹⁰² ac a ailenwyd yn Is-bwyllgor Dwyieithrwydd Gwynedd pan ddaeth Cyngor Sir Gwynedd i fodolaeth ym 1974. Felly ymddengys y diwygiadau gweinyddol newydd hyn ym myd llywodraeth leol ynghyd â chamau penodol i weithredu dros y Gymraeg o fewn y trefniant hwnnw yn gefndeuddwr priodol ar gyfer hyd fy ymchwil. O ran y sefydliadau, dewisais Geredigion a

⁹⁹ 1992: 55

¹⁰⁰ 1993: 5

¹⁰¹ gw. Williams, 1992: 23

¹⁰² Morris, 2000: 562

Gwynedd ar sail pedair elfen a fyddai, o'u cysylltu â'i gilydd, yn hynodi'r berthynas rhwng iaith ac ystiriaethau economaidd-gymdeithasol:-¹⁰³

- i. trwch y boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg¹⁰⁴
- ii. natur wledig y ddau awdurdod¹⁰⁵
- iii. nifer uwch o weithwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus¹⁰⁶
- iv. Cynnyrch Mewnwladol Crynswth isel¹⁰⁷

Fe gynhaliwyd pum cyfweiliad lled-strwythuredig ym mhob awdurdod. Er mai ychydig yw'r astudiaethau meintiol a gafwyd hyd yn hyn i fesur y defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol,¹⁰⁸ gellid fodd bynnag honni fod ymchwil ansoddol hefyd yn arbennig o berthnasol i astudio'r defnydd o iaith mewn byd sydd yn prysur luosogi'r mathau o fywydau yr ydym yn byd ynddynt.¹⁰⁹ Er y penderfynais mai epistemoleg ansoddol fyddai'n llywio'r cyfweiliadau, roeddwn yn ymwybodol hefyd y byddai'r cyfweiliadau'n rhwym o gofleidio data ansoddol a meintiol fel ei gilydd. Fe gafodd pob un o'r cyfweleion wybod *yn fras* pa feysydd a fyddai'n cael eu trafod yn y cyfweiliad ac fe gododd y meysydd hyn i'r brig yng nghanllaw'r cyfweiliad.¹¹⁰ Fe lwyddwyd i gyfweled â'r setiau canlynol er mwyn cymharu barn, nid yn unig *rhwng* ond *o fewn* setiau'r ddau awdurdod:

¹⁰³ *ibid.*, t. 571

¹⁰⁴ 69% yng Ngwynedd a 59% yng Ngheredigion gw.

<http://www.cymru.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publications/population/2003/sb22-2003/sb22-2003.htm>

¹⁰⁵ Ceir 46 o bobl fesul milltir sgwâr yng Ngwynedd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 114 gw.

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=2554&doc=9011

¹⁰⁶ 37% yng Ngwynedd o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru o 29% gw.

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=2554&doc=9011

¹⁰⁷ ee £7,900 yw'r cyfartaledd yng Ngheredigion a £16,659 yng Ngwynedd gw

<http://www.ceredigion2020.org.uk/cymraeg/index.htm>

¹⁰⁸ Enghraifft yw ymchwil anghyhoeddig Morris, D. a Williams, G. *Arolwg Defnydd Iaith* (Canolfan Ymchwil Cymru, Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, 1995)

¹⁰⁹ Flick, 2002: 20

¹¹⁰ Bryman, 2001: 314 a Flick, 2002: 92. Mynegbost i lywio trefn hyblyg o gyfweled yw'r canllaw. Fe'i hystyrir mewn cyferbyniad â mewnbwn cyfweiliadau meintiol y tybir iddynt rwystro, yn hytrach na goleuo, safbwynt y cyfweilai.

- *uwch swyddogion corfforaethol a strategol* - disgwyliid i'r swyddogion hyn roi'r ymdrechion dros hybu'r Gymraeg mewn cyd-destun sefydliadol, cyfansoddiadol a chymdeithasol ehangach. Yn ogystal, mae materion recriwtio a staffio yn rhan o'u cylch gorchwyl
- *aelod etholedig blaenllaw â gorolwg gwleidyddol dros fuddiannau'r Gymraeg* – byddai'r gwleidyddion lleol hyn yn allweddol i ganfod y graddau mae aelodau etholedig lleol wedi dylanwadu ar yr ymdrechion hyn
- *swyddog cydlynw'r Gymraeg* – byddai'r unigolyn hwn, â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn rhan greiddiol o'i ddisgrifiad swydd, yn allweddol gan y gallai roi barn alwedigaethol ar y gwaith beunyddiol o hybu'r Gymraeg yn gorfforaethol ac yn adrannol
- *uwch swyddog gwasanaeth* – ffôn fesur llwyddiant unrhyw ymdrechion i wyrdroi shifft ieithyddol a chynnal yr ymarfer newydd yw barnu a yw'r adrannau gwasanaeth yn anelu at yr un nod corfforaethol ac yn llwyddo i gyfannu'r Gymraeg yn rhan o'u gweithgarwch beunyddiol.

Gwelwn felly gasgliadau'r cyfweiliadau yn y ddwy bennod nesaf.

Pennod 4 – Cyngor Gwynedd

Yn ôl ym 1979, wrth iddo fyfyrto ar yr hyn yr oeddid yn ei gyflawni o blaid y Gymraeg yng Ngwynedd, honodd Ioan Bowen Rees, Prif Weithredwr Cyngor Sir Gwynedd ar y pryd, nad oedd yr ymdrechion hyn i'w rhagori yn unman arall yng Nghymru, ar wahân efallai i Geredigion.¹¹¹ Er ei fod wrth reswm yn sôn am yr hen Gyngor Dosbarth Ceredigion, byddaf yn dadlau fod grym gwleidyddol trawsbleidiol yn y ddau awdurdod unedol newydd olynodd Gyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Dyfed, yn wahanol ei gymhellant ac mai hyn sydd yn bennaf gyfrifol am y llwybrau gwahanol a gymerwyd yn y ddau sefydliad. Craffwn serch hynny yn gyntaf ar Gyngor Gwynedd gan mai yn y sefydliad hwnnw y dadleuaf y gwelir yr enghraifft rymusaf y gwyddys amdani yn y Deyrnas Gyfunol o gynllunio ar gyfer nid yn unig adfer iaith leiafrifol mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ond hefyd i sicrhau'r iaith honno yn bennaf cyfrwng cyfathrebu mewnol ac allanol y sefydliad hwnnw. Dyma, fe honnwn, wedd ieithyddol ar y 'gwerthoedd gweddilliol' y cyfeiria Morris¹¹² atynt sy'n gwrthbwysio hegemoni'r wladwriaeth.

Y nod yn y cyfweiliadau felly oedd casglu data empirig ynghylch newidynnau y gellid eu cymharu ar draws ac o fewn y ddau awdurdod. Fe'u trafodaf o dan yr adrannau canlynol:-

- grym gwleidyddol
- dulliau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg
- recriwtio a chyflogaeth
- hyfforddiant iaith i'r staff

¹¹¹ yn Stephens, 1979: 242

¹¹² 2000: 579

- strwythurau sefydliadol
- dylanwad yr awdurdodau yn y gymdeithas

Grym gwleidyddol

A oedd yr aelodau etholedig yn llawn sylweddoli felly, yn ôl ym 1974, fod y cam o sefydlu polisi iaith ffurfiol yn un arloesol, fel yr amheua Morris?¹¹³ Dichon ei bod yn gywir, ac fe ategir ei honiad¹¹⁴ fod diwedd y 1960au yn gyfnod o weithredu gwleidyddol cynhyrfus gan aelod etholedig ac uwch swyddog¹¹⁵ ac un a adlewyrchwyd yn y penderfyniad i fabwysiadu polisiâu iaith ar lefelau is na'r cyngor sir, yn fwyaf nodedig yn achos Cyngor Dosbarth Dwyfor lle deuai'r Gymraeg yn *unig* iaith weinyddol.¹¹⁶ Yn ogystal, fe ddaeth yn amlwg yn ystod y cyfweiliadau mai gwleidyddiaeth drawsbleidiol yn hytrach na dylanwad un blaid oedd yr ysbardun i sefydlu strwythurau newydd yn y Cyngor Sir newydd megis Is-bwyllgor Dwyieithrwydd y Cyngor Sir, a gynhwysai oddi ar 1973 aelodau blaenllaw y Rhyddfrydwyr a Phlaid Cymru megis y Cynghorydd Cyril Parry a'r Cynghorydd Dafydd Orwig. Fe awgrymodd uwch swyddog mai diffyg Cymreictod gwrth-Gymraeg oedd yn gyfrifol am yr awydd i dorri cwys i'r cyfeiriad hwn¹¹⁷ a bod hyn wedi arwain at ethos cadarnhaol a phroactif.¹¹⁸

Mae lle i ddadlau fod sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd oddi ar 1996 yn gryfach. Mae Morris yn simsanu ar y mater yma oherwydd, er ei bod o'r farn bod cyfyngiadau sylweddol wedi dod i ran yr awdurdodau yn gyffredinol yn dilyn gogwydd gwleidyddol neo-ryddfrydol yr 1980au, honna mai cryfhau y mae *statws* y

¹¹³ 2000: 558

¹¹⁴ *ibid.*, t. 557

¹¹⁵ Cyfweiliad I: 78, cyf. II: 020. - cyfeiria'r rhifau at gownter y dictaffon

¹¹⁶ Cyf. II: 087; Morris, *supra*, t.558

¹¹⁷ Cyf. III: 223. Gw hefyd gyf. I: 256; cyf. II: 124; cyf. IV: 032

¹¹⁸ Cyf II: 156

Gymraeg yng Ngwynedd gydag ymchwil yn dangos cysylltiad cryf rhwng disgwyliadau siaradwyr ynghylch cael gwasanaeth yn eu dewis iaith a'r dewis a wneir ohoni.¹¹⁹ Dengys cyfweiliad IV fod uwch swyddog o'r farn nad yw'r newid yn y diwylliant gymaint â hynny¹²⁰ ond dadleuwn mai cryfhau y mae'r camau dros gyfreithloni'r Gymraeg o fewn y Cyngor a'r parodrwydd gwleidyddol er mwyn sicrhau hyn, a hynny am ddau reswm cyd-ddibynnol. Wedi'r ad-drefnu ym 1996, fe ddaeth yn haws i aelodau etholedig Cyngor Sir Gaernarfon-Meirionnydd (y cysgod gyngor a elwir yn Gyngor Gwynedd bellach) gyflwyno gofyniad i aelodau'r staff allu cyfathrebu yn Gymraeg oherwydd y crebachu daearyddol o golli Ynys Môn ac Aberconwy. Sgil-ffaith y colli tiriogaethol hwn oedd cryfhau craidd parhaol siaradwyr y Gymraeg yn y cysgod gyngor newydd gan greu cyfle i gyfreithloni llunio polisi cynyddol rymusach o blaid y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, yn seiliedig ar y craidd parhaol newydd hwn. Dengys polisiau iaith dilynol y duedd hon yn glir ond ni chyfeiriant at y newidiadau tiriogaethol a demo-ieithyddol a oedd yn gefnlen i'r diwygiadau. Cyn 1996 felly, datganai Polisi Iaith y Cyngor y dylid annog y staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'i gilydd ond bod ganddynt yr hawl i weithio drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall.¹²¹ Fe welir gwendidau amlwg o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg mewn gosodiad dyheadol o'r fath ond wedi'r ad-drefnu daeth yn *ofynnol* i staff mewn swyddi *penodedig* allu cyfathrebu yn Gymraeg.¹²² Erbyn 2004, roedd hyn unwaith eto wedi ei gryfhau gan wneud y Gymraeg yn ofynnol i *holl* staff Cyngor Gwynedd allu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg hyd at safon fyddai'n briodol at ddibenion y briod swydd.¹²³

¹¹⁹ 2000: 558 a 577

¹²⁰ Cyf IV: 140

¹²¹ Cyngor Sir Gwynedd, 1983: 5 (i) a (ii)

¹²² Cyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd, 1995: 9.1

¹²³ Cyngor Gwynedd, 2004: 7.1.1

Fe welir enghraifft broactif o arweiniad gwleidyddol yn ymdrechu i greu cysondeb, ynghyd â gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ar draws y tair rhanbarth¹²⁴ o dan y drefn newydd, yn y sesiynau sensitifrwydd a gynhelid ar y cyd gan Gyn-Arweinydd ac uwch swyddog y Cyngor mewn ardal lle mae trwch helaeth trigolion y fro yn siaradwyr Cymraeg ond yn draddodiadol â swyddogion di-Gymraeg yn y swyddfa ranbarthol.¹²⁵ Arwydd yw hyn yn ogystal o'r cydweithio agos rhwng y swyddogion a'r aelodau etholedig - llinyn cyson yw hwn ymhlith y cyfweleion.¹²⁶ Fe ategir y farn hon yn ogystal mewn adolygiad gan gymheiriaid (*peer review*) llywodraeth leol yn 2002.¹²⁷

Dulliau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg

Bydd y tair adran ddilynol yn edrych ar ffyrdd ymarferol o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddu fewnol. Yn ddi-os y dull mwyaf dylanwadol ar ddelwedd gweinyddiaeth y Cyngor fu cyfieithu. Gellir rhannu gofynion cyfieithu yn gyfieithu ar y pryd a chyfieithu dogfennau. Cyfeiria Morris at gyfieithu ar y pryd yn un o'r elfennau hanfodol gogyfer delwedd Cyngor Sir Gwynedd¹²⁸ a deallaf sylw felly yn rhinwedd y ffaith ei fod yn ddull a gofleidiwyd yn syth gan yr aelodau etholedig, gan gynyddu felly weladwyedd y Gymraeg yng ngŵydd y cyhoedd. Nid oes dwywaith na fu'r newid iaith yn y prif siambrau yn ysgubol. Ond ers y penderfyniad tyngedfennol ar 31 Hydref 1973 i benodi cyfieithwyr o fewn Uned Ddwyieithrwydd,¹²⁹ fe ellir mesur graddfa llwyddiant cyfieithu drwy nodi sut mae 'anian yr anifail' wedi addasu i briodi'n well i amgylchiadau newydd.

¹²⁴ Arfon, Dwyfor a Meirionnydd

¹²⁵ Cyf III: 370

¹²⁶ ee. cyf II: 1078; cyf III: 997

¹²⁷ IDeA/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2003: 9/25

¹²⁸ 2000: 563

¹²⁹ Cyngor Sir Gaernarfon, 1973: 1 (i)

Ceir dwy enghraifft o hyn yn y cyfweiliadau. Mae'r naill yn cadarnhau fod shiftt ieithyddol *ysgrifenedig* wrthi'n digwydd oherwydd bod (i) llai o ofyn am gyfieithu dogfennau sy'n golygu y llunnir mwy o adroddiadau yn Gymraeg yn yr adrannau a'r cyfadrannau a (ii) mwy o ofyn i'r Uned Gyfieithu olygu a gloywi'r adroddiadau sy'n dod atynt yn Gymraeg.¹³⁰ Awgryma'r dystiolaeth hon unwaith yn rhagor fod angen gwneud rhagor o waith i estyn damcaniaeth Aitchison a Carter¹³¹ i gwmpasu'r berthynas rhwng adfer iaith leiafrifol a magu sgiliau llythrennedd yn yr iaith honno. Mae'r enghraifft arall, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r adran flaenorol ynghylch grym gwleidyddol, yn dangos tystiolaeth fod cynnydd sylweddol yn nifer y cynghorwyr Cymraeg o'r cyn-gynghorau dosbarth lle na fu'r Gymraeg yn amlwg sydd bellach yn defnyddio'r cyfleusterau cyfieithu er mwyn gloywi eu hiaith gyntaf.¹³²

Fel gwrthbwynt i'r uchod, diddorol yw oedi dros sylw gan uwch swyddog mai'r hyn sydd yn dihybyddu arian y Cyngor yw rhan cyfieithu mewn cynnal dwyieithrwydd.¹³³ Ymddengys fod y swyddog hwn o'r farn y gall cyfieithu dyfu i fod yn rhwystr rhag cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, eithr fe wnaed y pwynt drwy gyfeirio at gost-effeithiolrwydd yn hytrach nag unieithrwydd – amlygir yma felly farn ddigamsyniol fod y defnydd o iaith mewn sefydliad amlhaenog yn sefyllfa o fudd anghyfartal a heb fod yn 'gêm gyffredin', yn ôl Waltz¹³⁴ lle nad oes rhaid i fantais i un set o chwaraewyr olygu o reidrwydd anfantais gyfatebol i'r set arall. Credaf fod hyn yn gyfraniad buddiol at y drafodaeth ynghylch trydydd nod y traethawd hir hwn sy'n

¹³⁰ Cyf III: 379, 611

¹³¹ Fe ddaw Grin i'r un casgliad (2003: 29) er na rydd yntau enghreifftiau

¹³² *ibid.*, 651

¹³³ Cyf IV: 611

¹³⁴ 2001: 202

awgrymu fod dwyieithrwydd yn annhebygol o lwyddo mewn sefydliad fel yr amlinellir uchod ac mai dwyieithedd fydd y norm yn ddiwahân.

Recriwtio a chyflogaeth

Bydd Cynllun Gwella pob awdurdod unedol yn dangos yr hyn sy'n allweddol ac yn ddymunol i'r cyngor ei gyflawni. Mae gan gyngor Gwynedd bum prif amcan yn ei Gynllun Gwella gogyfer â 2004-05. Y pumed yw 'gwarchod treftadaeth, hyrwyddo diwylliant a hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg'.¹³⁵ Newidyn yw recriwtio a chyflogaeth sydd, dybiaf, yn greiddiol i ail nod y traethawd sef craffu ar ymrwymiad gwleidyddol i adfer y Gymraeg yn iaith weinyddu fewnol. Dyma yn wir oedd neges Rees pan honnodd fod 'cyflogi a hyfforddi personél yn ffactor allweddol yn llwyddiant diwygiadau dwyieithog'.¹³⁶ Is-nod yn y cyd-destun hwn fyddai ceisio amlygu a oedd goblygiadau cyfreithiol recriwtio yn rhwystro Cyngor Gwynedd yn gorfforaethol rhag cyflwyno ei ymdrechion yn y maes hwn fel meincnod y gallai awdurdodau eraill elwa arno. Yn benodol, roeddwn eisiau canfod a oedd penderfyniad y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth (EAT) yn achos *Mrs Jones a Miss Doyle v Gwynedd County Council*¹³⁷ i wrthod cydnabod unrhyw wahaniaeth at ddibenion cyflogi rhwng Cymry Cymraeg a Chymry di-Gymraeg yn peri i adran personél Cyngor Gwynedd droedio'n ofalus cyn dynodi proffil ieithyddol¹³⁸ i bob swydd ac i amau, o dan yr amgylchiadau, werth gwleidyddol cyflwyno eu hymdrechion yn arfer da i awdurdodau eraill.

¹³⁵ Cyngor Gwynedd, 2004b: gw. Cynllun Gwella'r Cyngor www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=2657&doc=9055

¹³⁶ 1993: 14

¹³⁷ EAT (1986)

¹³⁸ Bydd proffil ieithyddol yn dynodi'r hyfedredd sydd ei angen ar swyddog er mwyn cyflawni ei dasgau gw. Agote ac Azkue, 1992: 63

Pen draw'r penderfyniad, a ddisgrifiwyd gan McLeod yn un cryptig ac arwynebol,¹³⁹ oedd cyplysu hil ac iaith gan ddefnyddio deddfwriaeth lai na delfrydol – fe gymhwyswyd Deddf Cysylltiadau Hiliol (RRA) 1973 at ddibenion yr achos – i ddelio ag anghydfod cyfreithiol a oedd yn ymwneud ar y naill law â hawliau siaradwyr iaith leiafrifol ac ar y llall y dybiaeth fod cadw swydd ar gyfer aelodau o garfan ieithyddol arbennig yn achos posibl o wahaniaethu y gellid cymryd camau cyfreithiol yn ei erbyn. Mae gwendidau'r penderfyniad – ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl iddo – o gyplysu hil ac iaith yn dal i atseinio ym maes polisi gan fod Prys Davies o'r farn i gyrff cyhoeddus, yn sgil y penderfyniad, amau a allent corffori maen prawf a fyddai'n cyfreithloni gosod gofyniad ieithyddol yn amod cyflogaeth.¹⁴⁰

Wrth ymateb, achubodd sawl cyfwelai¹⁴¹ ar y cyfle i arddel disgysiau cydraddoldeb a meritocraziaeth sydd yn datgan yn groyw mai sgil yw'r gallu i siarad iaith. Serch hynny, ymddengys fod cryn ansicrwydd o hyd ynghylch goblygiadau achos *Jones* gan fod lle o hyd i amau y gallai amhendantwydd y penderfyniad arwain at gyhuddiadau posibl o wahaniaethu *ar sail hil* gan siaradwyr di-Gymraeg nad ydynt yn Gymry oherwydd hepgor y garfan hon o'r penderfyniad terfynol. Enghraifft o hyn yw cyfaddefiad gan uwch swyddog wedi'r cyfweliad fod recriwtio yn bwnc annatrys o hyd a bod eisiau dychwelyd ato er mwyn sicrhau cyfreithlonedd camau'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd y cyngor yn rhannu arferion da gyda chynghorau â chraidd parhaol Cymraeg tebyg, nododd aelod etholedig blaenllaw fod mater recriwtio a chyflogaeth yn un dyrys o hyd a bod y gofynion ieithyddol a osodir ar ddarpar weithwyr i'r Cyngor yn rhai unigryw a hwyrach y dylid trin Gwynedd ar

¹³⁹ McLeod, 1998

¹⁴⁰ Prys Davies, 1994: 62

¹⁴¹ gw. Cyf. IV: 320

wahân gan nad oedd yn debygol y gallai lwyddo mewn man arall.¹⁴² Ymddengys y farn hon yn un sydd *de facto* wedi ei dilysu ar sail tiriogaeth a chraidd parhaol. Mynnodd uwch swyddog arall fod asesiad risg (*risk assessment*) o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg ddim yn destun pryder i'r Cyngor¹⁴³ gan fod dangosydd perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol (NAWPI) ynghylch y cynllun iaith eisoes yn rhan o Gynllun Gwella 2004¹⁴⁴ ond fe amheuir sicrwydd y gosodiad hwn yn adolygiad cymheiriaid yr IDeA/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lle y nodir bod sgil-efeithiau anfwriadol a gwrthgynhyrchiol wedi deillio o'r cynllun iaith ac y gallai hyn amharu ar fuddiannau'r cyngor.¹⁴⁵ Parhau a wna'r ansicrwydd mewn sylw arall nad yw'r trafodaethau mae'r Cyngor wedi eu cynnal gyda chyrrff megis y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi bod yn rhai cadarnhaol, ac mai hyn sydd wedi llywio eu pwyslais ar *gaffael* y Gymraeg fel sgil.¹⁴⁶

Mae'n werth nodi fod y Cyngor yn defnyddio'r pwyslais neo-ryddfrydol ar anghenion cwmseriaid yr awdurdod i'w dibenion recriwtio mewnol eu hunain a, hyd y gwyddys, hon yw'r unig enghraifft o gorff gyhoeddus yng Nghymru sydd wedi cymhwyso elfennau 'hwyluso' Deddf yr Iaith Gymraeg¹⁴⁷ i sicrhau newidiadau sylweddol yn iaith y weinyddiaeth fewnol.¹⁴⁸ Mae'n werth dyfynnu felly sut mae'r galw allanol yn dilysu'r camau mewnol:-

¹⁴² Cyf. I: 878

¹⁴³ Cyf II: 565

¹⁴⁴ Gw. Atodiad 2 – A5.2 yn www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=2657&doc=9055

¹⁴⁵ IDeA/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2003: 13/48

¹⁴⁶ Cyf II: 825

¹⁴⁷ gw. http://www.legislation.hms.gov.uk/acts/acts1993/Ukpga_19930038_en_3.htm#mdiv5

¹⁴⁸ Morris, 2000: 564

‘ .. mae’r hawl gan drigolion Gwynedd i gael eu gwasanaeth yn yr iaith maen nhw isio – dyna ydi cydraddoldeb. Felly rhaid i’r Cyngor sicrhau bod mwyafrif llethol ei staff yn gallu cynnig y gwasanaeth yn Gymraeg’¹⁴⁹

Fe ddengys sylw arall mai’r hyn sy’n wahanol am gyflwyno sgil fel arfer da yw bod lefel y gofyn yn lleol yn uwch nag yn unman arall yng Nghymru ac mai’r hyn sy’n cyfreithloni eu camau - yn anuniongyrchol felly - yw tiriogaeth a chraidd parhaol,¹⁵⁰ er mai’r ddisgwrs a ddefnyddir i drosglwyddo’r neges yw meritocraziaeth fewnol a galw allanol. O ddefnyddio tiriogaeth a chraidd parhaol yn ffactorau cyfreithloni, ymddengys y gallai cyfreithlonedd y camau gael eu dilysu’n helathach drwy law cytser o safonau rhyngwladol cydnabyddedig yn y cynllun iaith. Un o’r rhain, er enghraifft, yw Erthygl 3(i) y Siartr, sy’n ategu’r cyfryw bolisiau ar sail tiriogaeth. Dengys adroddiad IDeA/CLILC, fodd bynnag, nad yw teulu llywodraeth leol yn llwyr argyhoeddedig o gyfreithlonedd – ac felly gynaladwyedd - gynllun iaith Cyngor Gwynedd oherwydd fod hanfod y cynllun yn anelu at sicrhau sefydliadoli¹⁵¹ y defnydd o’r Gymraeg drwy strategaeth rymus adnoddau dynol. Er enghraifft, o 327 swydd a hysbysebwyd yn Gymraeg yn ystod 2003 – gyda brawddeg yn diffinio’r swydd yn Saesneg - yn gofyn am ddwyieithrwydd hyd at lefel anghenion y briod swydd, dim ond 11 oedd heb eu llenwi yn y cyfnod hwnnw.¹⁵² Felly, mae gweithredu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cynllun Iaith¹⁵³ o fewn Strategaeth Adnoddau Dynol ehangach y Cyngor, yn adlewyrchu’n gryf ddehongliad Williams a Morris o sefydliadoli a drafodwyd uchod. Gan ddefnyddio’r rhesymeg hon, ymddengys o ddata

¹⁴⁹ Cyf IV: 190

¹⁵⁰ Cyf II: 869

¹⁵¹ Williams a Morris, 2000: 25

¹⁵² Cyngor Gwynedd, 2003: 4.1

¹⁵³ Cyngor Gwynedd, 2004a: 7.1

Gwynedd mai cywir yw haerriad Wright mai sefyllfa o fudd anghyfartal yw'r defnydd o iaith mewn sefydliad.

Hyfforddiant Iaith i'r Staff

Nid oes dwywaith mai peiriant mewnol sicrhau'r defnydd cynyddol a pharhaus o'r Gymraeg yn y Cyngor yw hyfforddiant iaith. Yn y cyfweiliadau, awgrymodd uwch swyddog fod yr hyfforddiant hwn – yn hyfforddiant dysgu Cymraeg, hyfforddiant sensitifrwydd tuag at siaradwyr Cymraeg a'u hanghenion a hyfforddiant gloywi iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg – cyn bwysiced i'r staff ag yw'r defnydd a wneir o gyfieithu ar y pryd i ddelwedd allanol a gwleidyddol y Cyngor.¹⁵⁴ Yn ymarferol, os na fydd ymgeisydd ar gyfer swydd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf, yna fe'i penodir ar yr amod y bydd yn dysgu hyd at lefel sy'n briodol i ddibenion y swydd a bydd yr amod hon yn rhan o'i gytundeb cyflogaeth gwaith.¹⁵⁵

Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i hyfforddiant iaith, fe gyflogir Cydlynnydd Cymraeg llawn-amser o fewn yr Adran Bersonél sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cynllun mentora lle bydd pob dysgwr yn derbyn cymorth iaith cyson gan gydweithiwr o'i ddewis yn yr un adran – digwydd hyn unwaith yr wythnos
- trefnu a monitro gwersi iaith mewnol ac allanol. Rhwng Haf 2003 – Chwefror 2004 fe fu 220 aelod o'r staff yn derbyn gwersi yn y gweithle neu yn y gymuned.¹⁵⁶ Yn ystod yr un cyfnod bu 40 aelod o staff yn mynychu cyrsiau dwys 5 diwrnod¹⁵⁷

¹⁵⁴ Cyf. IV: 104

¹⁵⁵ Cyngor Gwynedd, 2004a: 7.1.3

¹⁵⁶ Cyngor Gwynedd, 2003: 10

¹⁵⁷ *ibid.*, t.11

- trefnu a monitro gwersi gloymi – yn ystod yr un cyfnod uchod, mynychodd 96 o staff Cymraeg eu hiaith weithdai yn y gweithle am gyfanswm o 20 awr¹⁵⁸

Ystyrir y swydd hon yn allweddol at gyfer monitro gan fod rheolwyr llinell dysgwyr yn anfon adroddiadau chwarterol ‘ticio bwlch’ ar y cynnydd at y Cydlynnydd Cymraeg¹⁵⁹ a bydd cymwyseddau pob dysgwr yn cael eu gwerthuso’n flynyddol o dan Gynllun Hyfforddi Personol.¹⁶⁰ Fe wnaed y pwynt yn gryf fodd bynnag fod cymorth parod ar gael ar bob achlysur i ddysgwyr a bod ymdrechion o’r newydd yn cael eu gwneud wrth benodi i esbonio beth sydd ynghlwm wrth hyfforddiant iaith.¹⁶¹

Serch hynny, mewn cyfweiliad gyda phennaeth gwasanaeth a phennaeth corfforaethol, nodwyd na fydd adroddiadau monitro’r defnydd o iaith yn yr adrannau’n cael eu hanfon yn ganolog i’r adran bersonél,¹⁶² gan greu amheuaeth felly faint o wirio go iawn sy’n digwydd ar gynnydd dysgwyr.

Nid oedd y cyfweleion yn gallu darparu gwybodaeth ynghylch faint o fuddsoddiad yr oedd y Cyngor yn ei wario ar hyfforddiant iaith o dan ei wahanol weddau eithr mae’n eglur fod y gwariant yn sylweddol uwch nag unrhyw awdurdod arall. Fe amddifynnwyd gwariant o’r fath yn aml drwy gyfeirio at yr arbedion a ddeuai i ran y Cyngor o weithredu’r hyfforddiant yn llawn. Adroddodd mwy nag un cyfwelai fod y defnydd o gyfieithu dogfennau yn lleihau wrth i’r hyfforddiant iaith ddechrau dwyn ffrwyth.¹⁶³ Dadl i gyfiawnhau gwariant drwy gost-effeithiolrwydd yng nghyd-destun disgwrs neo-ryddfrydol yw hon a dadlennol yw nodi nad oedd y cyfweleion yn fodlon defnyddio dadl fod cymorth ariannol i hybu polisiau iaith yn angenrheidiol oherwydd

¹⁵⁸ *ibid.*, op.cit.

¹⁵⁹ Cyf. II: 631

¹⁶⁰ Cyf. IV: 574

¹⁶¹ Cyf. II: 911, 970

¹⁶² Cyf V: 256 a chyf. IV: 692

¹⁶³ gw. er enghraifft Cyf. IV: 611

fod grymoedd y farchnad rydd yn arwain at yr hyn a eilw Grin¹⁶⁴ yn ‘fethiant y farchnad’ pan fydd economeg y brif ffrwd yn cydnabod na ellir cynnal rhai nwyddau – y defnydd o iaith leiafrifol yn ein hachos ni – heb ymyrraeth. Mae sylwadau Grin yn cyd-fynd â rhai Rees¹⁶⁵ fod aiddosrannu cyllid yn gallu esgor ar gymaint o fuddiannau ar gyfer amrywiaeth am gynlleied o wariant cyhoeddus. Mae bellach yn chwarter canrif ers i’r cyn Brif Weithredwr awdurdod lleol hwn haeru y dylai’r gost o gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg o fewn awdurdodau fod yn rhan gyfannol o unrhyw system weinyddu ac y dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr â ‘datblygiad llywodraethu democrataidd’.¹⁶⁶

Strwythurau sefydliadol

Un o anawsterau sefydlu polisi iaith effeithiol wedi ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 oedd etifeddu dwy haen o lywodraethiant rhwng 1973 a 1996 sef lefel y cyngor sir a lefel y cynghorau dosbarth a bwrdeistref, ynghyd â lliawsedd o bolisiau iaith â gwahanol raddau o ymrwymiad i’r Gymraeg.¹⁶⁷ Er bod y disgwyl yn uchel ymhlith y cyhoedd wedi llwyddiannau polisi iaith y Cyngor Sir yn ystod yr ugain mlynedd flaenorol, roedd yn amlwg mai derbyn cydweithrediad gan y tair rhanbarth i anelu at yr un amcan fyddai’r orchwyl enfawr.¹⁶⁸ Er bod cysondeb yn graddol ddod i’r brig o safbwynt cydlynu’r cynllun iaith ar draws y tair rhanbarth hyn, ymddengys fod yr ‘etifeddu sefydliadol’ hwn yn arwain at sefyllfa mewn manau yn y rhanbarthau hyn¹⁶⁹ lle mae’r aelodau etholedig wedi derbyn goblygiadau’r cynllun iaith ond parhau y mae cyndynrwydd o hyd gan rai swyddogion yr ardal.¹⁷⁰ Hwyrach mai

¹⁶⁴ Grin, 2003: 145

¹⁶⁵ gw. Stephens, 1979: 241

¹⁶⁶ *ibid.*, 240

¹⁶⁷ gw. Morris, 2000: 598

¹⁶⁸ Cyf. II: 252

¹⁶⁹ er enghraifft Tywyn a Bangor gw. cyf. I: 567: III: 678

¹⁷⁰ Cyf. II: 278

ymateb yw hwn, y tro hwn gan siaradwyr di-Gymraeg, i wrthsefyll pwysau gan y sawl hynny, Cyngor Sir Gwynedd yn eu plith,¹⁷¹ a fynnai ymyrryd yn yr hyn a eilw Hechter yn ‘wladychiaeth fewnol’ sy’n cynnig bod rhaniad diwylliannol llafur yn arwain at farchnadoedd llafur gwahanol i wahanol gategoriâu o weithwyr¹⁷² ac yn fwyaf perthnasol i’n trafodaeth, yn ôl Williams, at dangynrychioli gan siaradwyr Cymraeg yn y 4 grŵp sociogymdeithasol uchaf.¹⁷³ Er bod ymchwil Blackaby a Drinkwater yn dangos y gall y sefyllfa fod wyneb i waered mewn mannau eraill yng Nghymru,¹⁷⁴ fe ddangosir yma wahanol gyfluniadau dosbarth ar sail *galwedigaeth*.

Ceir hefyd resymau pur sefydliadol pam y ceir rhwystrau rhag gweithredu cyflawn y cynllun iaith ar draws tiriogaeth y cyngor. Pan ddigwyddodd yr ad-drefnu diwethaf ym 1996, fe gollodd un rhanbarth y rhan fwyaf o’i gweithrediadau gweinyddu i bencadlys yr awdurdod unedol newydd yng Nghaernarfon.¹⁷⁵ Effaith hyn oedd amheuaeth gynyddol gan swyddogion y rhanbarth tuag at unrhyw bolisiau a ddeuai o’r pencadlys. Bid a fo am hynny, mae nifer y gweithdai a gynhaliwyd yn yr ardaloedd hyn er mwyn cyfleu ystyr a gweithrediad y cynllun iaith yn arwydd o ymrwymiad yr aelodau etholedig a’r uwch swyddogion. O’r cyfweiliadau felly, fe ddaeth yn amlwg bod fframwaith sefydliadol y Cyngor ynghyd â’i wahanol swyddogaethau yn dylanwadu ar lwyddiant cysoni’r cynllun iaith ar draws ei diriogaeth. Amlygwyd barn go bendant ei bod yn haws gweithredu’r cynllun ar draws un sefydliad llywodraethu amlhaenog nag ar draws nifer o sefydliadau unhaenog.

¹⁷¹ Morris, 1992: 141

¹⁷² Aitchison a Carter, 2000: 80

¹⁷³ 1986: 187

¹⁷⁴ 1997: 168

¹⁷⁵ Cyf II: 330

Dylanwad yr awdurdod yn y gymdeithas

Fe welir o adroddiad monitro blynyddol ar gynllun iaith y cyngor ar gyfer 2003-04 fod cydymffurfiad da neu dda iawn â'r cynllun, gan sgorio er enghraifft 86% wrth ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig a 95% wrth i'r cyhoedd holi'r staff yn y dderbynfa.¹⁷⁶ Ond er mwyn gweld yn ddyfnach i ddylanwad yr awdurdod yn y gymdeithas, rhaid troi at yr aelodau etholedig.

Er mai offeryn mewnl oedd Is-bwyllgor Dwyieithrwydd (yr Is-bwyllgor Iaith bellach) Cyngor Sir Gwynedd, nid oes dwywaith fod cylch gorchwyl toreithiog yr Is-bwyllgor wedi dylanwadu'n drwm ar arferion sefydliadau eraill drwy'r Sir a thrwy Gymru benbaladr. Cyfarfu'r Is-bwyllgor 64 gwaith rhwng 1973 a 1995¹⁷⁷ ac, yn wir, o'r cychwyn cyntaf fe gafodd effaith uniongyrchol ar y defnydd mewnl o'r Gymraeg yn y Cyngor, er enghraifft yn y rôl arolygol a datblygol o'r 'cyrisiau iaith i'r staff'¹⁷⁸ ac yn y nawdegau wrth arolygu 'manylion ieithyddol ynglŷn â hysbysebion a phenodiadau am swyddi yn y Cyngor Sir'.¹⁷⁹

Eithr yr hyn sy'n syfrdanol o bosibl am yr Is-bwyllgor hwn oedd bod 426 o 456 o faterion yn y cofnodion yn ymwneud â hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymdeithas yn gyffredinol.¹⁸⁰ Fe gyfeiria Morris at ddylanwad Fforwm Dwyieithrwydd Gwynedd, sef gweithgor yn cynnwys 16 o brif gyrff cyhoeddus y sir gan gynnwys y cyngor sir ei hun, a'i allu i hunanwerthuso priod gynnydd y cyrff hyn yn ogystal ag ysgogi newid mewn sefydliadau eraill,¹⁸¹ eithr ymddengys rhychwant yr Is-bwyllgor yn ddyfnach ac yn ehangach na'r Fforwm, o gamau ymarferol megis caniatáu i Gyngor

¹⁷⁶ Cyngor Gwynedd, 2003: 3.2.1; 3.2.2

¹⁷⁷ gw. Orwig, 1995: 1-13

¹⁷⁸ *ibid.*, t.1 – 03/04/1980

¹⁷⁹ *ibid.*, t.12 – 14/06/1994

¹⁸⁰ *supra* yn 180

¹⁸¹ 2000: 560

Meirionnydd ddefnyddio offer cyfieithu'r Cyngor Sir yn eu siambrau i gamau normatif megis pwysu, dros gyfnod o flwyddyn o ohebu cyson a chynnig dirprwyaethau, ar y Swyddfa Gymreig a'r Swyddfa Gartref i gyflwyno mesur seneddol yn datgan nad oedd gofyn am gymhwyster ieithyddol yn wahaniaethu anuniongyrchol.¹⁸² Yn wir, nid gormodiaith fyddai haeru fod yr Is-bwyllgor wedi gweithredu fel Comisiwn Iaith answyddogol ar y naill law, gan dderbyn cynrychioliadau gan gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol drwy Gymru gyfan ar eu gweithrediad o gynlluniau iaith, i fudiad pwysu ar y llall yn tynnu sylw at ddarpariaeth Gymraeg annigonol cyrff preifat.¹⁸³

Ers ad-drefnu llywodraeth leol, mae gweithgarwch yr Is-bwyllgor Iaith wedi parhau i fod yn ddylanwadol yn y gymdeithas, ac mae adborth gan actorion cymdeithasol ar y gweithgarwch hwn yn cael ei ddilysu o fewn y cyngor gan fod y Fenter Iaith leol yn cynnal yr adroddiadau monitro blynyddol.¹⁸⁴ Efen sydd yn newydd yng ngwaith yr Is-bwyllgor, ar wahân i'r gwaith arferol o ymgynghori â chwmnïau sy'n ymsefydlu yn y sir ynghylch materion iaith yw'r gallu i ddyrannu grantiau i gwmnïau preifat yn amodol ar gydymffurfio â gofynion ieithyddol penodol.

Un wedd ar weithgarwch yr Is-bwyllgor bellach yw rhannu'r cylch gorchwyl yn fwy cyfartal rhwng hybu'r Gymraeg y tu fewn i'r cyngor a'r tu allan iddo. Hwyrach mai un o'r rhesymau am hyn yw bod swyddogion ac aelodau etholedig y cyngor o'r farn mai newid y ffiniau gweinyddol – a gwleidyddol – sydd wedi cryfhau craidd parhaol y Gymraeg yn yr awdurdod newydd ac mai'r rheswm hwn sy'n esbonio'r lleihad yn nifer yr achosion o 'eirioli ieithyddol' yr ymgwymerir â hwy y tu hwnt i'w ffiniau.

¹⁸² op. cit., 1995: t.5 – 27/10/1987; t.6 – 15/01/1988

¹⁸³ ibid., t.12 – 07/07/1995

¹⁸⁴ Cyngor Gwynedd, 2003: 3.2

Dichon hefyd fod yr hyn a dadoga Morris yn ‘effeithiau’r Dde newydd’¹⁸⁵ o ganoli gwasanaethau, gan arwain felly at lai o ddyletswyddau rheoleiddio i’r awdurdodau unedol newydd, wedi cyfyngu rhywfaint ar awydd ‘cenhadol’ y cyngor. Er gwaethaf hyn, ceir adlais o’r awydd i rannu arferion mwy ‘cynhwysfawr’ gydag awdurdodau unedol eraill â chraidd parhaol tebyg i un Gwynedd ynghyd â dymuniad i ddysgu o arferion rhyngwladol.¹⁸⁶ Ar hyn o bryd nid oes fforwm i awdurdodau drwy Cymru benbaladr â chraidd parhaol tebyg rannu arferion da gyda’i gilydd er bod rhai ohonynt yn aelodau Rhwydiaith sydd yn fecanwaith cymorth ar gyfer swyddogion iaith pob awdurdod yng Nghymru.¹⁸⁷ Dengys cofnodion Rhwydiaith¹⁸⁸ mai dim ond un o’r 4 awdurdod â chraidd parhaol tebyg – Gwynedd, Ceredigion, Ynys Môn a Chaerfyrddin - sydd wedi mynychu’r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd oddi ar ei sefydlu wedi ad-drefnu 1996.

Honna Wright yr ymddengys mai’r pris y bydd cymdeithas yn ei dalu am lythrennedd, addysg a symudoledd i bawb o fewn ffiniau’r wladwriaeth yw bod ieithoedd yn cael eu gosod mewn trefniant hierarchaidd.¹⁸⁹ Â rhagddi i holi a fydd newid yn y sefyllfa hon os digwydd i rym y wladwriaeth wanychu. Ond mae tystiolaeth y bennod hon yn awgrymu fod tebygolrwydd llwyddiant yn hyn o beth yn dibynnu ar y graddau y ceir arweiniad gwleidyddol i gefnogi’r camau hyn. Yr hyn sy’n syfrdanol yw bod yr arweiniad hwn yng Ngwynedd yn un trawsbleidiol a lleol, gan godi cwestiynau ehangach ynghylch newidynnau eraill megis ‘glud cymdeithasol’ hunaniaeth yn *nhermau* iaith a all wella ein dealltwriaeth o arwyddocâd amlwg arweiniad gwleidyddol. Bydd craffu ar yr ymdrechion hyn yng Ngheredigion yn y bennod

¹⁸⁵ 2000: 561

¹⁸⁶ Cyf. II: 1042

¹⁸⁷ Gw. <http://www.wlga.gov.uk/index3e.htm>

¹⁸⁸ *ibid.*

¹⁸⁹ 2004: 243

ganlynol yn dangos cyd-destun gwahanol ar gyfer y defnydd cymdeithasol o'r hunaniaeth uchod mewn prosesau gwleidyddol.

Pennod 5 – Cyngor Sir Ceredigion

Dadleuir yn y bennod hon mai darniog yw'r ymdrechion i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghyngor Sir Ceredigion. Nid yw hyn yn gyfystyr â honni nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg ond yn hytrach yn ganlyniad anochel dilyn cynllun iaith cymeradwy'r Cyngor¹⁹⁰ lle y nodir y bydd gan y Gymraeg yr un statws a dilysrwydd â'r Saesneg. Gan na sonnir am y defnydd o'r Gymraeg, fe atega'r ddogfen y gred mai sefyllfa o fudd anghyfartal yw'r defnydd o iaith, gan gadarnhau felly ganlyniadau'r cyfweiliadau yng Nghyngor Gwynedd, er bod y ddwy iaith yng Ngeredigion a Gwynedd wrth reswm wedi'u gosod mewn trefn wahanol o ran blaenoriaeth.

Fe fyddaf yn dadlau bod y tameidiogrwydd hwn ynghylch y defnydd mewnol o'r Gymraeg yn deillio o ansicrwydd gwleidyddol ynghylch lle'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu naturiol yn y sir ac o fewn y Cyngor ei hun a bod yr ansicrwydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn niffyg arweiniad ymarferol a chysyniadol gadarn gan swyddogion ac aelodau etholedig i dderbyn bod gwasanaethu'r cyhoedd mewn ardal Gymraeg¹⁹¹ yn rhwym o olygu ymestyn rhychwant y cynllun iaith i gynnwys y defnydd mewnol o'r Gymraeg er mwyn ymateb yn ymarferol i ddisgwyliadau'r cyhoedd. Yn wir, er bod barn gref yn cael ei lleisio sawl gwaith¹⁹² ynghylch y disgwyliad y gall y cyhoedd ac aelodau etholedig siarad Cymraeg â'r swyddogion, nid oedd yr un o'r cyfweleion yn awgrymu y dylid gwneud hyn, na chwaith sut y dylid mynd ati yn *systematig* i gyrraedd y nod hwn. O ganlyniad, er mwyn lleddfu'r diffyg

¹⁹⁰ Cyngor Sir Ceredigion, 1998: 1.3

¹⁹¹ supra yn 113

¹⁹² gw er enghraifft Cyf. III: 656 a chyf. V: 862

hwn, fe awgrymaf fod hyn wedi esgor ar fathau eraill o weithgarwch sy'n canolbwyntio ar *i.* adraneiddio'r (*departmentalisation*) defnydd o'r Gymraeg, *ii.* ymdrechion 'clodwiw' i hybu'r Gymraeg gan unigolion penodol, yn swyddogion ac aelodau etholedig yn hytrach na thrwy systemau, a *iii.* honni bod y defnydd o'r Gymraeg yn rhan annatod o wead y Sir a diwylliant y Cyngor. Dadleuaf hefyd fod y camau hyn wedi arwain at *blindspot* sefydliadol.

Gan fy mod yn defnyddio Cyngor Gwynedd fel meincnod, fe gymherir y sefyllfa yng Ngheredigion ag ymdrechion Gwynedd yng nghorff y bennod.

Grym gwleidyddol

Hwyrach mai'r sylw cyntaf sy'n brigo i'r wyneb yn y cyfweiliadau yw'r diffyg cytundeb barn rhwng uwch swyddog corfforaethol ac aelod etholedig blaenllaw ynghylch swyddogaeth gwleidyddiaeth plaid wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cyngor, sy'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â barn pob un o'r cyfweleion yng Nghyngor Gwynedd. Fe nododd yr uwch swyddog corfforaethol mai o du y swyddogion, nid wrth yr aelodau etholedig, y daeth yr arweiniad ganol yr wythdegau¹⁹³ ac fe ategir hyn gan swyddog arall¹⁹⁴ a nododd y rhan flaenllaw a gymerwyd gan uwch swyddog corfforaethol a strategol yn ystod y cyfnod hwn a bod aelodau etholedig ifanc yna wedi cydio yn yr arweiniad hwn a'i ddilysu'n wleidyddol. Serch hynny, nid oes dwywaith, yn ôl aelod etholedig, y bu gwleidyddiaeth plaid yn ddylanwadol iawn¹⁹⁵ gan yr â rhagddo i gynnig mai yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 fod yn rhaid i aelodau etholedig berthyn i garfan wleidyddol y cyflymmodd y camau i gynyddu'r defnydd o gyfieithu ar y pryd a chyfieithu dogfennau.

¹⁹³ Cyf. I: 275

¹⁹⁴ Cyf. V: 250

¹⁹⁵ Cyf. II: 358

Dylid serch hynny drin y gosodiad hwn yng nghyd-destun dyfodiad Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a fyddai wedi cyflymu'r gweithgarwch hwn yn ddi-os ond serch hynny, rwyf hefyd yn gweld deddfwriaeth 1994 uchod yn bwysig i ddilysu'r gweithgarwch yn wleidyddol. Er iddo ganmol effeithiolrwydd swyddogion yng nghanol yr wythdegau, nid oedd yr aelod etholedig hwn yn mentro ai'r swyddogion ynteu'r aelodau etholedig roddodd yr arweiniad cychwynnol. O safbwynt y presennol, fe deifl uwch swyddog rywfaint o oleuni ar ddwy elfen gysylltiedig sef y berthynas rhwng swyddogion ac aelodau etholedig a mater ehangach cefnogaeth yr aelodau etholedig i'r ymdrechion i adfer y defnydd o iaith drwy haeru yn blwmp ac yn blaen na fydd y swyddogion yn gweithredu'n 'unochrog' oni bai eu bod yn cael eu siarsio gan y cynghorwyr i wneud felly.¹⁹⁶

O safbwynt cefnogaeth drawsbleidiol i gamau i adfer yr iaith leiafrifol yn y Cyngor, er bod un uwch swyddog corfforaethol wedi cyfeirio at gefnogaeth y Grŵp Annibynnol a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'r Gymraeg yn ogystal â chefnogaeth draddodiadol Plaid Cymru,¹⁹⁷ fe ychwanegwyd wedi'r cyfweliad mai ymdrechion un aelod etholedig blaenllaw o blith y Grŵp Annibynnol sydd yn bennaf gyfrifol am gefnogaeth y blaid honno. Fe ategwyd y farn hon gan aelod etholedig o'r Grŵp Annibynnol gan ychwanegu nad oedd fawr neb ar wahân iddo ef yn bleidiol i gynyddu'r ddarpariaeth yn y Gymraeg.¹⁹⁸ Ymddengys felly nad oes ymrwymiad trawsbleidiol llwyr i gynyddu'r defnydd allanol o'r Gymraeg gan y Cyngor ac oddi mewn iddo. Mae'r uwch swyddog corfforaethol a'r aelod etholedig uchod yn ansicr ynghylch cynaladwyedd y ddarpariaeth *ar gyfer yr aelodau etholedig* gan nad oes fframwaith gwleidyddol systematig a chytûn i wrthsefyll unrhyw newidiadau

¹⁹⁶ *ibid.*, 870

¹⁹⁷ Cyf. III: 1125

¹⁹⁸ Cyf II: 324

gwleidyddol fyddai'n fwy gelyniaethus tuag at y ddarpariaeth hon – fe dâl hi i ddyfynnu'r ddau:-

‘Dyn a wŷr beth fyddai'n digwydd pe bai newid gwleidyddol – does dim canllawiau.’

‘.. ond does dim byd ar bapur – gallai'r cyfan newid dros nos’.¹⁹⁹

Fe welwn felly fod grym gwleidyddol wedi arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith aelodau etholedig y sir ond nid ymhlith y swyddogion oherwydd yn gyntaf, fe awgrymwn, ansicrwydd ynghylch tarddle cysyniadol y grym gwleidyddol sy'n hybu'r Gymraeg, gyda pheth amheuaeth mai o du'r swyddogion y daeth *yn y lle cyntaf*. Os felly gellid amau fod nifer o swyddogion ac aelodau etholedig o hyd yn ymwybodol o sylfeini ansad yr ymdrechion hyn. Cynigïaf mai'r ail reswm nad yw y defnydd o'r Gymraeg wedi treiddio i lefel y swyddogion yw oherwydd na sicrhawyd erioed gefnogaeth drawsbleidiol. O gymharu'r sefyllfa hon ag un Cyngor Gwynedd, fe welir bod cyfreithlonedd wedi rhoi hyder i'r aelodau etholedig a'r swyddogion fel ei gilydd ddeall dyletswyddau'r naill a'r llall, a'r hollt ddemocrataidd rhwng y ddwy garfan.

Dulliau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg

O dderbyn fod bwloch eithaf trawiadol rhwng y defnydd allanol a mewnol o'r Gymraeg yn y Cyngor, fe wyddom fod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan gynghorwyr mewn pwyllgorau wedi digwydd, a hynny yn drawiadol²⁰⁰ o gyflym, yn ystod y 10 mlynedd cyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. Fe ategir hyn gan uwch

¹⁹⁹ Cyf III: 898 a chyf. II: 1252

²⁰⁰ Cyf. I: 304

swyddog corfforaethol a welodd gysylltiad uniongyrchol rhwng gweithgarwch Prif Weithredwr Cyngor Dosbarth Ceredigion y pryd hwnnw a'r datblygiadau hyn.²⁰¹ Wrth gofio yn ôl, roedd un swyddog yn synnu at ba mor ddiffwdan roedd aelodau etholedig di-Gymraeg o Aberystwyth wedi dod i arfer â defnyddio clustffonau,²⁰² gan restru'r twf yn nifer y cyfieithwyr o 1 ym 1990 i 2 ym 1996.²⁰³ Nid yw'r ddarpariaeth bresennol serch hynny o 4 cyfieithydd²⁰⁴ yn ymddangos yn ddigonol ar gyfer awdurdod unedol a gresyna'r swyddog hwn at y diffyg ymrwymiad i gynyddu'r ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ysgrifenedig, er ei fod hefyd yn cyfeirio at anawsterau cyllid sy'n sail i'r diffyg ymrwymiad hwn. Cyfeiria'r swyddog hwn at sefyllfa hynod o ddryslyd lle y trafodir gwaith Cabinet y Cyngor yn Gymraeg er mai yn Saesneg, drwy law y swyddogion, y llunnir yr adroddiadau sy'n destun trafod y cyfarfodydd hyn.²⁰⁵

O'r dystiolaeth hon felly, nid oes dwywaith fod dwyieithedd gweithredol ar waith o fewn y Cyngor. Yn fwy penodol, cynigiau gysylltu dwyieithedd â bodolaeth sefyllfa o fudd anghyfartal yn y Cyngor. Dengys tystiolaeth uwch swyddog adrannol nad yw neges – a hygredd - y cynllun iaith wedi treiddio i'r gwasanaethau. Wrth drafod dogfennau a gaiff eu cyfieithu i'r Gymraeg, mynnodd y swyddog, sy'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol mewn adran lle y mae trwch y staff yn siaradwyr Cymraeg, mai chwilio am y fersiwn wreiddiol y bydd bob tro.²⁰⁶ Nid yw'n hysbys ai achos o amau cywirdeb y fersiynau Cymraeg sydd yma, eithr fe ddaw yn amlwg fod y swyddog hwn o'r farn fod heirarchiaeth yn y sefyllfa o fudd anghyfartal hon yn rhoi'r flaenoriaeth i'r

²⁰¹ Cyf. I: 145

²⁰² Cyf. V: 310

²⁰³ *ibid.*, 220

²⁰⁴ *ibid.*, 365

²⁰⁵ *ibid.*, 382

²⁰⁶ Cyf IV: 466

Saesneg a'i fod yn derbyn y drefn hon a gafodd ei phennu oddi uchod yn gorfforaethol ar gyfer yr adran.

Hwyrach mai'r gymhariaeth amlycaf y gellir ei gwneud â'r defnydd o gyfieithu yng Nghyngor Sir Ceredigion yw'r casgliad nad yw 'anian yr anifail' wedi newid yn y Cyngor ers i Gyngor Sir Dyfed gynt brynu gwasanaethau cyfieithwyr ar y pryd ganol yr wythdegau.²⁰⁷ O ganlyniad, nid yw cyfieithu wedi newid o fod yn ddull clodwiw ddigon o sicrhau y gall aelodau etholedig siarad yn eu hiaith gyntaf yng ngweithrediad y Cyngor i fod yn gyfrwng i fraenaru'r tir ar gyfer newidiadau yn iaith y gweinyddu mewnol.

Recriwtio a chyflogaeth

Gan yr ystyriaf y newidyn hwn yn greiddiol i'r graddau mae arweinwyr lleol yn dymuno cyfannu'r Gymraeg yn rhan o weithrediad y Cyngor, fe dâl inni edrych ar Gynllun Gwella 2004-2005 y cyngor. Er bod y defnydd o'r Gymraeg yn faes trawsbynciol yng Nghynlluniau Gwella Gwynedd a Cheredigion, yn wahanol i Gyngor Gwynedd, nid yw'r nod o warchod buddiannau siaradwyr Cymraeg yn un o saith prif amcan cyfredol Cyngor Sir Ceredigion.²⁰⁸ Fe adlewyrchir hyn yng Nghynllun Iaith y Cyngor sydd yn dwyn i gof y camau cyfyngu a welir yn y Confensiwn Fframwaith a drafodwyd ym Mhennod 2.²⁰⁹ Yn yr adran staffio, fe gyfeiria'r cynllun at 'ofyn' i gyfarwyddwyr 'ystyried' natur y swyddi, gan 'ymgyngori' ag eraill gyda 'golwg' ar bennu 'a ddylai'r' swyddi dan sylw fod yn rhai dwyieithog.²¹⁰

²⁰⁷ Cyf. III: 200

²⁰⁸ Cyngor Sir Ceredigion, 2004: 3 a 9

²⁰⁹ supra yn 66

²¹⁰ Cyngor Sir Ceredigion, 1998: 7.1.1; 7.1.2

Nid yw'n syndod felly i ganfod ansicrwydd a phryder ynghylch materion recriwtio ymhlith y cyfweleion. Mae swyddogion perthnasol y cyngor yn gyfarwydd â goblygiadau *Jones v Gwynedd* ac ymddengys fod cysgod y dyfarniad wedi gwreiddio'n ddwfn ymhlith y cyfarwyddwyr hynny sydd yn pennu gofynion ieithyddol eu gweithwyr. Mae uwch swyddog â chyfrifoldebau llunio proffiliau iaith o'r farn na fedrai ofyn am sgiliau dwyieithog mewn sawl maes nas ystyrai yn hanfodol i wasanaethu'r cyhoedd, a hynny am y rheswm ei fod yn pryderu y gallai'r Cyngor gael ei erlyn mewn tribiwnlys diwydiannol.²¹¹ Honnodd y swyddog hwn, yn ogystal â phob swyddog arall,²¹² ei fod ar gadarnach tir wrth honni y gellir cyfiawnhau gofyn am sgiliau dwyieithog ar gyfer swyddi cyfarwyddwyr a swyddi rheng flaen oherwydd y cysylltir sgil â rhoi gwasanaeth gerbron y cyhoedd, gan fod y swyddi hyn yn dangos 'ethos y Cyngor o'r cychwyn cyntaf'.²¹³ Ymddengys mai 17 swydd yn unig sydd â gofyniad ieithyddol yn perthyn iddynt, 6 yn eu plith ar gyfer cyfarwyddwyr y cyngor.²¹⁴ Nododd y swyddog fod y gofyniad hwn ar glawr a chadw yng nghyfansoddiad y cyngor²¹⁵ ond ni cheir cyfeiriad yn unman ato yn y ddogfen ac felly ymddengys fod y cyngor yn gadael ei hunan yn agored i asesiad risg negyddol ar y lleiaf a'r posibilrwydd o gamau cyfreithiol ar y mwyaf, gan nad yw'r camau hyn wedi cael eu cyfreithloni gan aelodau etholedig lleol. Gan fod y swyddog yn cyfeirio at broffiliau ieithyddol fel mater 'bron â bod yn *last ditch*'²¹⁶ wrth hysbysebu, y casgliad y deuf iddo yw nad yw recriwtio yn faes allweddol, yng ngolwg y Cyngor, er mwyn cynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. Er bod y swyddog hwn o'r farn

²¹¹ Cyf. III: 601

²¹² gw. er enghraifft cyf. 630; cyf. 1: 450

²¹³ Cyf. III: 578

²¹⁴ Cyf. I: 550

²¹⁵ Cyf. III: 1176

²¹⁶ *ibid.*, 528

bod yr aelodau etholedig eisiau gweld cynnydd yn y defnydd mewnol o'r Gymraeg,²¹⁷ ceir mwy o ddata sy'n gwrthbrofi hyn. Yn wir, fe leisia uwch swyddog corfforaethol ei farn fod cynllun iaith y cyngor yn 'ddyheadol' o safbwynt materion recriwtio ac y byddai estyn y 'dyhead' hwn i gynnwys gofyniad ieithyddol, waeth beth ydyw, ar gyfer pob swyddog 'y tu hwnt o eithafol'²¹⁸ ac mai'r hyn ddylai fod yn flaenoriaeth i'r cyngor yw sicrhau bod ei wasanaethau yn ddiogel yn yr ystyr fod y bobl broffesiynol gywir yn cyflawni'r gwaith hwn.²¹⁹ Gellid dadlau mai ymhlyg yn y ddadl hon y mae'r gred na fydd modd sicrhau proffesiynoldeb y gwasanaethau hyn drwy fynnu gofyniad ieithyddol. Ymddengys felly nad yw'r cyngor yn barod i ystyried datblygu proffiliau ieithyddol yn raddol fel y digwyddasai yng Ngwynedd.

Mae'n werth sylwi, serch hynny, fod nifer o swyddogion wedi cyfeirio at gyflogau cymharol isel y Cyngor Sir²²⁰ ac y gallai hyn esbonio pam bod y Cyngor yn ei chael yn anodd recriwtio staff â'r cymwyseddau angenrheidiol, waeth a geir gofyniad ieithyddol ai peidio. Er ei bod yn wir fod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Ceredigion gyda'r isaf yn y Deyrnas Gyfunol, mae'n dal i fod yn debycach mai siaradwyr Cymraeg lleol fyddai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ar gyfer swyddi. Dyna yn wir ddymuniad aelod etholedig sydd yn honni iddo ymrwymo i greu ymwybyddiaeth yn y system addysg fod angen siaradwyr Cymraeg ar y Cyngor Sir.²²¹ Anodd yw osgoi'r casgliad, fel y gwelwn yn ehangach o dan yr adran ar 'Strwythurau Sefydliadol', fod ymdrechion yn cael eu dargyfeirio, yn anymwybodol efallai, i sector fwy traddodiadol addysg er mwyn 'diddyfnu' y pwll o siaradwyr Cymraeg yn y

²¹⁷ *ibid.*, 656

²¹⁸ Cyf. I: 571

²¹⁹ Cyf. I: 648

²²⁰ Cyf. IV: 660

²²¹ Cyf. II: 460

‘labordy’ hwnnw yn hytrach nag yn y sector gyhoeddus, o bosibl oherwydd ofnau isorweddol ynghylch statws cyfreithiol proffiliau ieithyddol.

Hyfforddiant Iaith i'r Staff

Yn hytrach nag ystyried hyfforddiant iaith yn gyfrwng i ennill sgil neu gymhwyster, dengys data'r cyfweiliadau fod cryn wrthwynebiad i ddysgu'r Gymraeg ymhlith aelodau di-Gymraeg y staff. Os yw hi'n ofyniad, fel y mae dau uwch aelod o'r staff yn ei gadarnhau uchod, i aelodau o'r staff sydd eisiau cael eu penodi neu eu dyrchafu'n gyfarwyddwyr gwasanaeth fod yn ddwyieithog, yna nid yw'n syndod bod rhai ohonynt yn teimlo'n annifyr²²² ynghylch hyn gan nad yw'r gofyniad hwn wedi cael ei gymeradwyo yn nogfennaeth sylfaenol y Cyngor. Un o'r esboniadau a geir gan uwch swyddog am y diffyg deunydd ysgrifenedig hwn yw y gallai canllawiau leihau'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwirionedd drwy 'gynhyrfu'r dyfroedd', gan amharu felly ar 'naturioldeb' y Gymraeg yn y cyngor.²²³ Cyfeddyf uwch swyddogion ac aelod etholedig²²⁴ fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi beirniadu'r diffyg monitro, gan gynnwys monitro'r hyfforddiant iaith.²²⁵ Oherwydd bod y cyfarwyddwyr gwasanaeth, yn hytrach na'r Adran Bersonél, yn gyfrifol am yr hyfforddiant iaith, fe ddaw'n amlwg ei bod yn anodd sicrhau unrhyw berchnogaeth gorfforaethol dros ddysgu galwedigaethol o unrhyw fath o fewn y Cyngor, gan gynnwys dysgu'r Gymraeg. Fe lunnir darlun felly o uwch swyddogion sydd yn cyfiawnhau diffyg hyfforddiant drwy honni, ymhlith rhesymau eraill, fod y baich gwaith yn mynd yn gynyddol anos ac mai cyfyngiadau ariannol mewn cyngor llai ei faint fel Ceredigion sydd yn rhwystro ymdrechion i'r cyfeiriad hwn.²²⁶ Unwaith yn rhagor, fe welir hyfforddiant iaith y

²²² Cyf V: 791 a chyf. II: 712

²²³ Cyf III: 249

²²⁴ *ibid.*, 450 a chyf. II: 101

²²⁵ adolygiad o gynllun iaith cyntaf Cyngor Sir Ceredigion - i'w gyhoeddi

²²⁶ Cyf. II: 238

Cyngor mewn gwrthgyferbyniad trawiadol â Chyngor Gwynedd gan yr ymddengys nad yw arweinyddiaeth y Cyngor yn derbyn fod cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn strategol berthnasol i'w weinyddiad²²⁷ mewnol. Mae hyn yn ei dro yn esbonio pam nad yw'r cyngor yn fodlon ystyried dargyfeirio – a chyfiawnhau dargyfeirio - adnoddau ariannol er mwyn sicrhau sefyllfa o fudd anghyfartal sy'n bleidiol i ddyfodol y Gymraeg yn y lleoliad gweinyddol hwn.

Strwythurau sefydliadol

Fe ddeuwn unwaith eto yn yr adran hon ar draws ymdrechion i roi strwythurau yn eu lle a fyddai'n cydnabod 'naturioldeb'²²⁸ y defnydd o'r Gymraeg yn y Cyngor. Un o'r rhain oedd y Pwyllgor Iaith a Diwylliant a fodolai rhwng yr ad-drefnu ym 1996 a 2001 pan ddaeth strwythurau newydd i rym ym myd llywodraeth leol yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 a welodd gryfhau dull cabinet o reoli cyngor ar draul yr hen ddull o reoli drwy bwyllgor. Fe'i disodlwyd o dan y system gabinet gan aelod â chyfrifoldeb dros faterion trawsffiniol, gan gynnwys hamdden ac iaith. Penderfynais felly ymdrin â dylanwad y Pwyllgor Iaith a Diwylliant yn yr adran hon gan y bu hyd a lled ei weithgarwch yn gyfyngedig i waith y cyngor yn hytrach nag ysgogi newid yn y gymdeithas, fel yn achos Is-bwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd.

Mae strwythurau Ceredigion wedi 1996 yn amlygu dwy wedd gydgysylltiedig sef adraneiddiwch ar y naill law a diffyg gwybodaeth gorfforaethol am yr hyn sy'n digwydd yn yr adrannau hynny ar y llall. Er enghraifft, nid oedd uwch swyddog corfforaethol a strategol yn gwybod a oedd y Pwyllgor Iaith a Diwylliant wedi cwrdd

²²⁷ Grin: 2003, 188

²²⁸ Cyf. I: 241

yn ystod cyfnod ei fodolaeth.²²⁹ Cymharer hyn â thystiolaeth uwch swyddog adrannol sy'n cadarnhau fod y Pwyllgor hwn wedi cwrdd ond bod hyn wedi digwydd o dan fantell y Pwyllgor Addysg ac yn ategu'r gred mai adraneiddiwch yw'r dull a ddefnyddid yn ystod y cyfnod hwn o safbwynt strwythurau i fesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.²³⁰ Mae'n werth sylwi mai monitro cynllun iaith oedd unig gyfrifoldeb y Pwyllgor hwn, yn ôl y cyfwelai hwn. Er bod y strwythur i gynnal y defnydd o'r Gymraeg bellach wedi dod yn rhan o bortffolio Cabinet, fe ddaw'r enghraifft gliriaf mai parhau y mae'r adraneiddiwch hwn drwy graffu ar gyfansoddiad y Cyngor²³¹ lle y nodir mai un o swyddogaethau gweithredol y Cabinet yw llunio a hybu polisiau 'diwylliannol' i gynyddu'r defnydd o'r iaith trwy'r Cyngor yn gyffredinol ac i annog y staff i ddysgu'r Gymraeg a gwella eu cymwyseddau yn yr iaith. Ymhlyg yn hyn y mae'r ddealltwriaeth mai mater i'r Adran Addysg fydd hyn yn hytrach na dod yn uniongyrchol o dan gyfrifoldebau corfforaethol adran y Prif Weithredwr lle y gellid disgwyl mwy o brif-ffrydio oherwydd grym tybiedig yr adran hon.

Dylanwad yr awdurdod yn y gymdeithas

Mae'n anodd pwyso a mesur cyfraniad y Cyngor, hyd yn oed o ran ei gydymffurfiaid â'r cynllun iaith, gan na chynhaliwyd monitro gan y Cyngor ar lefel y cydymffurfiaid, Golyga hyn nad oes modd gwybod oddi ar 1996 sut mae'r Cyngor wedi perfformio ar lefelau statudol ei ymwneud â'r cyhoedd. Nododd un swyddog nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gwynion yn erbyn gweithrediad cywir y cynllun iaith,²³² eithr

²²⁹ *ibid.*, 382

²³⁰ Cyf. IV: 074

²³¹ Ceredigion County Council, 2004: 43 (5)

²³² Cyf V: 186

nid oedd chwaith yn gwybod pa ymdrechion a wnaed i ymgynghori â'r carfanau hynny a fyddai'n debygol o anfon sylwadau ar weithrediad y cynllun.

O ran cysylltiadau dyfnach â'r gymdeithas, gan nad yw portffolio'r aelod etholedig sy'n gyfrifol am faterion trawsbynciol – sy'n cynnwys y Gymraeg – yn ymestyn i ymwneud ehangach â'r gymuned leol, disgyn i ran yr Adran Addysg unwaith eto y mae'r wedd hon ar weithgarwch y Cyngor. Mae'n ddadlennol fod uwch swyddog adrannol, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch manau grym yn y cyngor sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg, wedi nodi triawd yr aelodau etholedig, yr adran addysg a 'sefydliadau ac actorion allweddol' eraill yn y gymuned.²³³ Yr hyn sydd yn ddiddorol am y sefydliadau a'r actorion hyn yw eu bod yn rhai a noddir gan Adran Addysg y Cyngor, gan gynnwys y Fenter Iaith leol, Cered. Ceir awgrym cryf felly yn y data hwn mai adraneiddiwch yw'r cyfrwng a ddefnyddir ar gyfer yr hyn o ddylanwad y mae'r Cyngor yn ei gael ar y gymdeithas.

²³³ Cyf. IV: 336

Pennod 6 - Casgliad

Dwy thema amlwg sy'n dod i'r brig wedi'r cyfweiliadau. Yn gyntaf, oherwydd y rhesymau gwleidyddol a strwythurol a nodwyd yn yr ymdriniaeth â'r ddau gyngor, mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud camau mawr tuag at gau'r bwlch rhwng y defnydd o'r Gymraeg gan aelodau etholedig a staff y cyngor. Mae'r sefyllfa yng Nghyngor Sir Ceredigion yn fwy cymhleth, gan y bydd angen rhagor o ymchwil i ddarganfod a yw'r aelodau etholedig a'r uwch swyddogion yn dymuno cau'r bwlch yn y defnydd hwn. Ceir data gwrthgyferbyniol gan yr uwch swyddogion ynghylch a yw ac a ddylai'r bwlch hwn gael ei gau.²³⁴

Yn ail, ceir llai o ryngddibyniaeth rhwng polisïau yng Nghyngor Sir Ceredigion o safbwynt ymateb i gynnydd yn y galw gan y cyhoedd Cymraeg. Os ystyrir buddsoddi'n helaeth mewn addysg trydedd lefel heb ddarpariaeth ddigonol mewn addysg uwchradd yn enghraifft o wario adnoddau yn anghytwys, yna awgrymaf fod cydymffurfio â gofynion statudol y cynllun iaith yng Ngheredigion yn golygu nad oes dilyniant ystyrion rhwng lefel gyhoeddus y ddarpariaeth yn y cynllun a gallu'r swyddogion i ymateb i'r union gynnydd y mae'r cynllun yn darparu ar ei gyfer mewn ardal o Gymru â chraidd parhaol sylweddol uwch o siaradwyr Cymraeg.

Fe welsom hefyd yn y penodau uchod fod diffyg hygredded o hyd yn britho'r ymdrechion i gyfreithloni'r defnydd o iaith leiafrifol. Mae'r llinyn hwn i'w ganfod mewn offerynnau rhyngwladol, mewn penderfyniadau gwleidyddol '*upstream*' ac yn y camau i roi'r penderfyniadau hyn ar waith '*downstream*'. Ystyriaf gyfreithlonedd felly yn ddangosydd o'r gwerth mae cymdeithas yn ei roi ar hyfywedd yr iaith dan sylw a hyn fu'n gefndir i'r tri phrif nod yn y traethawd hir.

²³⁴ gw. cyf. I: 061 a chyf. IV: 187

O ran y nod cyntaf, dadleuwyd fod cryn ddryswch o hyd yn y ddarpariaeth gyfreithiol rwymol a normatif tuag at y defnydd o'r iaith leiafrifol ond fe welir symudiad diymwad tuag at gyfreithloni cynyddol, yn enwedig drwy gamau *cadarnhaol* gan wladwriaethau a'u hasiantau tuag at y defnydd hwn. Mae rhai asiantau'r wladwriaeth ar y lefel leol megis Cyngor Gwynedd wedi cydio yn y fath gamau cadarnhaol i raddau helaeth iawn, gan ddefnyddio ar y naill law ieithwedd 'hawliau bro' cyn 1996 ac ar y llall iaith neo-ryddfrydol wedi ei seilio ar allu'r 'cwsmer' i fynnu dewis iaith wedi 1996 ond hyd yn hyn nid ydynt wedi elwa ar y cyfle i gorffori'r cyfreithlonedd a rydd offerynnau rhyngwladol yn rhan gyfannol o'u polisiau mewnol. Yng ngoleuni'r data ar faterion recriwtio yn y ddau gyngor sy'n dangos fod cryn ansicrwydd o hyd ynghylch proffiliau ieithyddol, awgrymwn y byddai cyfeirio at y ddarpariaeth gyfreithiol rwymol a normatif yn atgyfnerthu seiliau cysyniadol cynllun iaith Cyngor Gwynedd gan ei fod eisoes yn ymestyn darpariaeth y Gymraeg ymhell y tu hwnt i'r gofynion statudol.

O dderbyn bod anawsterau o hyd o ran cyfreithlonedd, ac os cytunwn gyda Keller²³⁵ fod gan lunwyr polisi a deddfwyr wrthwynebiad mwy cymhleth a sylfaenol tuag at gamau cadarnhaol i leiafrifoedd sydd yn seiliedig mewn pryderon ynghylch cynaladwyedd cymdeithas sifig y mwyafrif yn wyneb gofynion gan leiafrif, ymddengys ar yr olwg gyntaf mai naifrwydd gwleidyddol fu'r camau a gymerwyd gan aelodau etholedig yng Nghyngor Gwynedd i geisio sicrhau dwyieithedd sefydliadol yn y byd gwaith ond bu cyfuniad grymus o graidd parhaol a thrawsbleidioldeb lleol yn fodd i drosglwyddo dyheadau a ddilyswyd yn wleidyddol

²³⁵ 1998: 51

yn bolisi effeithiol ac *effeithlon*. Mae data Gwynedd felly yn cadarnhau tyb Grin fod gweithredu polisi yn fwy tebygol o lwyddo os gellir dangos fod y camau yn rhai cost-effeithiol. Mae hefyd yn ategu'r ail nod ynghylch y graddau mae allbwn polisi yn ddibynnol ar benderfyniadau gwleidyddol.

Ond mae data'r cyfweleion hefyd yn awgrymu bod yna gysylltiad rhwng yr ail nod uchod a'r trydydd nod gan fod cost-effeithiolrwydd, sydd yn allbwn polisi wedi ei ddilysu'n wleidyddol, yn debygol iawn o arwain at sefyllfa o fudd anghyfartal yn y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn y ddau gyngor. Yn achos Cyngor Gwynedd felly, mae arwyddion pendant fod symudiad tuag at fudd anghyfartal o blaid y defnydd hwn, tra dadleuaf fod y gwrthwyneb yn wir yn achos Cyngor Sir Ceredigion.

Deunydd Sylfaenol

Ceredigion County Council (2004) *Constitution*. Aberaeron: anghyhoeddedig

Cyngor Gwynedd (2004a) *Cynllun Iaith: Diwygiedig*. Caernarfon: anghyhoeddedig

Cyngor Gwynedd (2004b) *Cynllun Gwella 2004 - 2005*. yn www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=2657&doc=9055 (aed i'r wefan ar 27/08/04)

Cyngor Gwynedd (2003) *Cynllun Iaith: Adroddiad Monitro Blynyddol*. Caernarfon: anghyhoeddedig

Cyngor Sir Ceredigion (1998) *Cynllun Iaith*. Aberaeron

Cyngor Sir Ceredigion (2004) *Cynllun Gwella 2004 - 2005*. yn www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=1311 (aed i'r wefan ar 24/08/04)

Cyngor Sir Gaernarfon (1973) *Cofnodion Cyfarfod 31/10/73 y Gweithgor Polisi Dwyieithog*. Caernarfon: anghyhoeddedig

Cyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd (1995) *Polisi Iaith (Drafft)*. Caernarfon: anghyhoeddedig

Cyngor Sir Gwynedd (1983) *Polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd*. Caernarfon

EAT (1986) *Industrial Cases Reports (ICR) 833*

Orwig, D. (1995) *Crynodeb o Waith Is-bwyllgor Dwyieithrwydd Gwynedd 1973-1995*. Caernarfon: anghyhoeddedig

Cyfeiriadau Eilaidd

Agote, I. ac Azkue, J. 'Cynllunio Ieithyddol yng Ngweinyddiaeth Gyhoeddus Cymuned Ymreolus y Basgiaid' yn *Yr Ieithoedd Llai – Cymathu Newydd-ddyfodiaid: Trafodion Cynhadledd*. (gol) Dafis, Ll. Tal-y-bont: Cydweithgor Dwyieithrwydd yn Nyfed

Aitchison, J.W. a Carter, H. (2000) 'Yr Iaith Gymraeg 1921-1991: Persbectif Geoiethyddol' yn *Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*. (gol) Jenkins, G.H. a Williams, M.A. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Blackaby, D., a Drinkwater, S. (1996) 'Welsh-Speakers and the Labour Market', *Contemporary Wales*, 9: 158-170

Bryman, A. (2001) *Social Research Methods*. Oxford: Oxford University Press

Dunbar, R. (2001) 'Minority Rights in International Law', *International and Comparative Law Quarterly*, 50: 90-120

Crystal, D. (2000) *Language Death*. Cambridge: Cambridge University Press

de Varennes, F. (1996) *Language, Minorities and Human Rights*. The Hague: Martinus Nijhoff

de Varennes, F. (gol.) (2001) *Minority Rights in Europe: European Minorities and Languages*. The Hague: TMC Asser Press

Fishman, J. (1991) *Reversing Language Shift*. Clevedon: Multilingual Matters

Flick, U. (2002) *An Introduction to Qualitative Research*. London: Sage

Grin, F. (2003) *Language Policy Evaluation and the European Charter for Regional or Minority Languages*. Basingstoke: Palgrave

Hechter, M. (1975) *The Celtic Fringe in British National Development, 1536 – 1966*. London: Routledge

Humphreys, G. E. (1987) 'Polisi Iaith Awdurdod Addysg Gwynedd – Adolygu a Gweithredu ym 1986', *Education for Development*, 10 (3)

IDeA/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2003) *Rhaglen Gwella Llywodraeth Leol: Ymweliad â Chyngor Gwynedd 25-29ain Tachwedd 2002*. Caerdydd: anghyhoeddedig

Kaplan, R.B. a Baldauf, R.B. (1997) *Language Planning: From Practice to Theory*. Clevedon: Multilingual Matters

Keller, P. (1998) 'Re-thinking Ethnic and Cultural Rights in Europe', *Oxford Journal of Legal Studies*, 18: 29-59

May, S. (2001) *Language and Minority Rights : Ethnicity, Nationalism, and the Politics of Language*. New York: Longman

McLeod, W. (1998) 'Autochthonous language communities and the Race Relations Act', *Web Journal of Current Legal Issues* yn <http://webjcli.ncl.ac.uk/1998/issue1/mcleod1.html> (aed i'r wefan ar 26 Awst 2004)

Morawa, A. (2002) 'Minority Languages and Public Administration: A Comment on Issues Raised in Diergaardt et al v. Namibia', *ECMI Working Paper 16*, European Centre for Minority Issues: yn http://www.ecmi.de/doc/download/working_paper_16.pdf (aed i'r wefan ar 27 Awst 2004)

Morris, D. (1992) 'Effeithiau Newidiadau Economaidd ar Gymdeithas Gwynedd' yn *Yr Ieithoedd Llai – Cymathu Newydd-ddyfodiaid: Trafodion Cynhadledd*. (gol) Dafis, Ll. Tal-y-bont: Cydweithgor Dwyieithrwydd yn Nyfed

Morris, D. (2000) 'Yr Iaith Gymraeg a Chynllunio Awdurdodau Lleol yng Ngwynedd 1974-1995' yn *Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*. (gol) Jenkins, G.H. a Williams, M.A. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Morris, D. a Williams, G. (1994) 'Iaith ac Ymarfer Cymdeithasol: Achos y Gymraeg' yn *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg*. (gol) Williams, R.H., Williams, H., a Davies, E. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Nelde, P., Strubell, M., Williams, G. (1996) *Euromosaic. The Production and Reproduction of the Minority Language Groups in the European Union*. Brussels: The European Commission

Prys Davies, G. (1994) 'Yr Iaith Gymraeg a Deddfwriaeth' yn *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg*. (gol) Williams, R.H., Williams, H., a Davies, E. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Rees, I. B. (1993) *Cymuned a Chenedl: Ysgrifau ar Ymreolaeth*. Llandysul: Gomer

Richardson, J. (gol) (2001, 2il arg) *European Union: Power and Policy Making*. London: Routledge

Romaine, S. (1995) *Bilingualism*. Oxford: Blackwell

Stephens, M. (gol) (1979, 2il arg) *The Welsh language Today*. Llandysul: Gomer

Waltz, K.N. (2001) *Man, The State and War*. New York, Columbia University Press

Williams, C. (1992) 'Cymathu Mewnfudwyr; Bygythiad Cudd neu Ddatblygiad i'w Groesawu' yn *Yr Ieithoedd Llai – Cymathu Newydd-ddyfodiaid: Trafodion Cynhadledd*. (gol) Dafis, Ll. Tal-y-bont: Cydweithgor Dwyieithrwydd yn Nyfed

Williams, C. (2000) 'Adfer yr Iaith' yn *Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*. (gol) Jenkins, G.H. a Williams, M.A. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Williams, G. (1986) 'Recent Trends in the Sociology of Wales' yn *The Welsh and their Country* (gol) Hume, I. a Pryce, W.T.R. Llandysul: Gomer

Williams, G. a Morris, D. (2000) *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Wright, S. (2004) *Language Policy and Language Planning: From Nationalism to Globalisation*. Basingstoke: Palgrave